Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Amrywiaeth a Chynhwysiant:** Adroddiad Blynyddol 2025-26

Gorffennaf 2026



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Amrywiaeth a Chynhwysiant:** Adroddiad Blynyddol 2025-26

Gorffennaf 2026

senedd.cymru


SAMBA
DOC

# Cynnwys

**Cyflwyniad ........ 7**

Rhagair ........ 10

Ein blwyddyn yn ôl ei huchafbwyntiau ........ 12

Ein dull o ran Amrywiaeth a Chynhwysiant ........ 13

Ein gwerthoedd ........ 14

**Mae Amrywiaeth a Chynhwysiant yn sail i'n gweithgareddau pob dydd a'n cynllunio strategol ........ 17**

**Arweinyddiaeth a diwylliant sy'n cael eu harwain gan werthoedd ........ 29**

Hyfforddiant Amrywiaeth a Chynhwysiant, a chodi ymwybyddiaeth ........ 30

Cefnogi Iechyd, Diogelwch, Llesiant a Diogelu ........ 34

Rhwydweithiau Cydraddoldeb yn y Gweithle ........ 37

Un Senedd: Cymuned y Senedd – Perthyn a #UnTîm ........ 40

Symudedd cymdeithasol ........ 47

**Lle cynrychioliadol, cynhwysol i weithio ynddo ........ 49**

Ein gweithlu ........ 50

Crefydd / Cred ........ 54

**Senedd Hygyrch, Gynhwysol a Byd-eang ........ 69**

Senedd hygyrch a chynhwysol ........ 70

Senedd Fyd-eang - ymgysylltu rhyngwladol ........ 103



# Cyflwyniad



## Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn nodi blwyddyn adrodd olaf y Chweched Senedd, yn ogystal â moment bwysig o drawsnewid i ddull Comisiwn y Senedd o ran Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Mae'n adlewyrchu cyfnod o newid sefydliadol sylweddol, parhau i gyflawni ac aeddfedrwydd cynyddol yn y modd y mae Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cael ei ddeall, ei arwain a'i wreiddio ar draws y sefydliad.

Fe wnaeth Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant y Chweched Senedd (2022-2026) amlinellu gweledigaeth uchelgeisiol: Sicrhau bod Amrywiaeth a Chynhwysiant yn sail i'n gweithgareddau o ddydd i ddydd, ac i'n cynllunio strategol; meithrin arweinyddiaeth a diwylliant sy'n cael eu harwain gan werthoedd; bod yn lle cynrychioliadol a chynhwysol i weithio iddo; a chyflwyno Senedd hygyrch a chynhwysol i bobl Cymru. Dros dymor y Senedd, mae'r strategaeth hon wedi darparu fframwaith cryf a chyson at ddibenion gweithredu, atebolrwydd a dysgu yn ystod cyfnod o newid mewnol ac allanol parhaus.

Drwy gydol y Chweched Senedd, mae Comisiwn y Senedd wedi llywio trawsnewidiad sylweddol – gan gynnwys newidiadau i'n maint a'n ffurf, dulliau newydd o gynllunio gweithlu, modelau recriwtio sy'n esblygu a pharatoadau ar gyfer ehangu'r Senedd ei hun. Bu'r newidiadau hyn yn ddylanwad anochel ar y modd y gellid cyflawni rhai amcanion strategol yn ymarferol. Er enghraifft, mae newidiadau recriwtio o ran maint a dull wedi effeithio ar ein gallu i fodloni'r meini prawf penodol sy'n ofynnol ar gyfer achrediadau allanol penodol. Fodd bynnag, mae'r cyfnod hwn o newid, hefyd, wedi cryfhau ein ffocws ar gynhwysiant cynaliadwy, meithrin gallu ac effaith ddiwylliannol hirdymor, yn hytrach na gweithgaredd yn unig.

Yn erbyn y gefnlen hon, mae'r Strategaeth wedi llywio cynnydd ystyrlon. Mae ystyriaethau o ran Amrywiaeth a Chynhwysiant bellach wedi bwrw gwreiddiau dyfnach ym meysydd llywodraethiant, datblygu polisïau, cynllunio ystadau, gweithgareddau etholiadol, cyfathrebu ac ymgysylltu â dinasyddion. Mae atebolrwydd arweinyddiaeth wedi cryfhau, aeddfedu wnaeth arferion Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ac mae cydweithwyr ar draws y sefydliad yn gynyddol ddeall eu rôl wrth greu diwylliant cynhwysol. Mae buddsoddi mewn dysgu, llesiant, ein Rhwydweithiau Cydraddoldeb yn y Gweithle ac ymgysylltiad

cynhwysol wedi helpu i sicrhau nad cyfrifoldeb un tîm yw cynhwysiant, ond ymdrech sefydliadol ar y cyd.

Datblygiad arwyddocaol yn ystod y cyfnod adrodd hwn fu trosglwyddo Amrywiaeth a Chynhwysiant o swyddogaeth annibynnol wrth ymyl recriwtio, i'r portffolio Gallu a Diwylliant yn fwy eang, ochr yn ochr â Dysgu a Datblygu Sefydliadol, a Datblygiad. Mae'r cam hwn yn adlewyrchu newid bwriadol o ran trin Amrywiaeth a Chynhwysiant fel arbenigedd ar wahân, a'i bennu'n allu sefydliadol creiddiol. Mae'n cydnabod bod cynhwysiant parhaol yn cael ei feithrin gan ddiwylliant, systemau arweinyddiaeth ac ymddygiadau bob dydd; nid yn unig drwy bolisi neu gyflwyno rhaglenni.

Mae'r gwaith integreiddio hwn wedi galluogi cydlyniad agosach rhwng Amrywiaeth a Chynhwysiant, datblygu'r gweithlu, gallu arweinyddiaeth a dylunio sefydliadol. At hynny, mae wedi cryfhau ein gallu i ymateb i dystiolaeth o arolygon staff a phrofiad personol, gan ganolbwyntio ar fesurau atal yn ogystal ag ymateb, a sicrhau bod arfer cynhwysol yn rhan annatod o yrfa pob gweithiwr. Er bod y newid hwn wedi golygu'r angen i addasu, mae'n cynrychioli cam hollbwysig tuag at ddull mwy cyfannol, cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

Fel mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn ei ddangos, cafwyd cynnydd yn ystod y Chweched Senedd yn sgil ymrwymiad, proffesiynoldeb a chreadigrwydd cydweithwyr ar draws Comisiwn y Senedd, gyda chefnogaeth ein Rhwydweithiau Cydraddoldeb yn y Gweithle, grwpiau llywio a phartneriaid allanol. Ar yr un pryd, rydym yn glir nad cyrchfan yw cynhwysiant. Mae gwaith y Chweched Senedd yn darparu sylfeini cryf ac arferion dysgu clir ar gyfer y cam nesaf.

Gan edrych ymlaen at y Seithfed Senedd, rydym yn dal i feddu ar ymrwymiad cadarn i wreiddio a hyrwyddo Amrywiaeth a Chynhwysiant fel modd sylfaenol o alluogi effeithiolrwydd sefydliadol, cyfreithlondeb democrataidd ac ymddiriedaeth y cyhoedd. Gan adeiladu ar gynnydd y Chweched Senedd, byddwn yn canolbwyntio ar gyfnerthu cynhwysiant yn sgil diwylliant a gallu, cryfhau arweinyddiaeth gynhwysol a sicrhau bod Comisiwn y Senedd yn parhau i adlewyrchu pobl cymru, eu gwasanaethu, a pherthyn iddynt.



**Joyce Watson AS**
Comisiynydd y Senedd gyda chyfrifoldeb dros weithwyr a chydraddoldebau

# Rhagair

## Mae'n bleser gennym gyflwyno Adroddiad Blynyddol Amrywiaeth a Chynhwysiant Comisiwn y Senedd ar gyfer 2025-26.

Bu'r cyfnod adrodd hwn yn flwyddyn lle'r ydym wedi parhau i gryfhau ein hymrwymiad i fod yn Senedd hygyrch, gynrychioliadol a chynhwysol i bobl Cymru.

Mae'r adroddiad hwn yn mesur hyd a lled y gwaith a gyflawnwyd ar draws y sefydliad: O ddylunio cynhwysol yn adnewyddiad y Siambr, i ddarparu adnoddau etholiad amlieithog; o gryfhau ein diwylliant yn y gweithle a'r modd y byddwn yn cefnogi llesiant, i gyfnerthu ymgysylltiad â chymunedau y mae eu lleisiau'n rhy aml yn cael eu tangynrychioli mewn bywyd cyhoeddus. Mae'r cyflawniadau hyn yn ganlyniad ymrwymiad cydweithwyr ar draws y Senedd, a'u gwaith tosturiol a chreadigol.

Mae gwaith y Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant, ein Rhwydweithiau Cydraddoldeb yn y Gweithle, a nifer y timau a'r unigolion sy'n hyrwyddo cynhwysiant yn eu rolau o ddydd i ddydd, wedi bod yn ganolog i hyn. Mae eu harweinyddiaeth a'u profiad bywyd yn parhau i gyfoethogi ein diwylliant, a dylanwadu ar ein cyfeiriad strategol.

Rydym, hefyd, wedi cymryd camau breision o ran ehangu cyfranogiad drwy raglenni megis Ymlaen, drwy ddarparu adnoddau digidol a ffisegol hygyrch ar gyfer Etholiad y Senedd 2026, a thrwy ymgysylltu â miloedd o bobl ledled Cymru yn sgil dulliau allgymorth ac ymgysylltu creadigol wedi'u teilwra. Mae'r ymdrechion hyn yn hanfodol wrth inni geisio meithrin hyder, dealltwriaeth a chynrychiolaeth yn ein prosesau democrataidd.

Yn fewnol, parhau i esblygu mae ein ffocws ar lesiant, gweithio hyblyg, recriwtio cynhwysol, a datblygu staff, â hynny'n cael ei lywio gan dystiolaeth o'n harolygon, a thrwy ddeialog barhaus gyda chydweithwyr. Rydym yn falch bod cynifer o'n staff yn teimlo y gallan nhw fod yn nhw eu hunain yn y gwaith, ac rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i sicrhau bod pob cydweithiwr o'r farn eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi, a'u grymuso i ffynnu.

Diolch i bob cydweithiwr, sefydliad partner, ac aelod o'r gymuned sydd wedi cyfrannu at yr hyn a gyflawnwyd eleni. Eich ymrwymiad chi yw'r hyn sy'n gwneud y cynnydd hwn yn bosibl.

# Ein blwyddyn yn ôl ei huchafbwyntiau

## Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi parhau i ddatblygu arfer gorau a hyrwyddo cynhwysiant.

Datblygu ein Strategaeth Pobl a Diwylliant newydd.

Cyflawni cyfres o hyfforddiant ac ymwybyddiaeth i ddathlu amrywiaeth a hyrwyddo cynhwysiant, gan gynnwys cynnig rhyngseneddol gwell.

Prosesau gwell ar gyfer cyflawni addasiadau rhesymol.

Adolygu ein diwylliant corfforaethol a'n dull UN TÎM yn sgil arolygon staff rheolaidd.

Cefnogi datblygiad ein interniaid graddedig yn y cynllun YMLAEN.

Parhau i wella ein hymrwymiad corfforaethol o ran llesiant.

Gwneud defnydd o’n rhwydweithiau cynhwysiant, ein Grŵp Llywio’r Gweithlu a’n Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant i hyrwyddo cynhwysiant, darparu arweiniad a chraffu ar ein gwaith.

Adolygu ein polisi recriwtio a chyflwyno hyfforddiant gorfodol o ran recriwtio cynhwysol.

Ymgymryd â gwaith ymgynghori ac ymgysylltu â phobl ledled Cymru, gan gynnwys cymryd rhan mewn ymchwiliadau pwyllgor a hyrwyddo etholiad y Senedd 2026.

Llofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog.

Parhau i wella hygyrchedd ein hystad.

Ymgysylltu â miloedd o blant drwy ein rhaglen addysg a gwaith Senedd Ieuenctid Cymru

Gwahodd amrywiaeth eang o bobl i'n hystad a chynnal digwyddiadau ac arddangosfeydd sy'n dathlu Amrywiaeth a Cynhwysiant yng Nghymru.

Cefnogi Aelodau i hyrwyddo Cymru a'r Senedd ar lwyfan byd-eang.

# Ein dull o ran Amrywiaeth a Chynhwysiant

Rydym wedi ymrwymo i fod yn senedd hygyrch sy'n cynrychioli holl bobl Cymru ac yn croesawu pobl o bedwar ban byd. Ein nod yw bod yn sefydliad enghreifftiol a chynhwysol i'n staff, i Aelodau o'r Senedd ac i'r cyhoedd yr ydym yn eu gwasanaethu.

Fel corff cyhoeddus, mae gennym rwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cynhwysiant a meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol bobl. Mae'r tair dyletswydd hyn yn sail i'n dull o ymdrin ag amrywiaeth a chynhwysiant.

## Ein Strategaeth Amrywiaeth a Cynhwysiant

Mae ein strategaeth[1] ar gyfer y chweched Senedd yn nodi ein hymrwymiad i Amrywiaeth a Chynhwysiant. Mae'n amlinellu'r blaenoriaethau a ganlyn ar gyfer gweddill tymor y Senedd:

- Amrywiaeth a Chynhwysiant yn sail i'n gweithgareddau bob dydd a'n cynllunio strategol.
- Arweinyddiaeth a diwylliant sy'n cael ei arwain gan werthoedd.
- Lle cynrychioliadol, cynhwysol i weithio.
- Senedd gynhwysol, hygyrch i bobl Cymru


Fel rhan o'r Strategaeth hon, mae ein timau ar draws Comisiwn y Senedd yn gyfrifol am ystyried Amrywiaeth a Chynhwysiant ym mhob agwedd ar eu gwaith. Rydym yn parhau i ymdrechu i fod yn lle croesawgar i weithio ynddo ac i ymweld ag ef, a chynrychioli pawb yng Nghymru.

Mae ein strategaeth lawn ar gael ar ein gwefan, yn ogystal â chrynodeb, fersiwn Hawdd ei Deall a fersiwn yn Iaith Arwyddion Prydain.

[1] https://senedd.wales/comisiwn/gweithio-i-gomisiwn-y-senedd/amrywiaeth-a-chynhwysiant-yn-y-comisiwn/ein-strategaeth/

# Ein gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd corfforaethol yn datgan ein hymrwymiad i fod yn barchus, yn gynhwysol ac yn garedig, ac i gefnogi Senedd Cymru mewn ffordd sy'n dathlu ein cyfraniadau unigol at y gwaith o wasanaethu pobl Cymru.



## PARCH

Rydym yn gynhwysol ac yn garedig, ac rydym yn gwerthfawrogi cyfraniadau ein gilydd wrth ddarparu gwasanaethau rhagorol.




## ANGERDD

Rydym yn bwrpasol wrth gefnogi democratiaeth, gan dynnu ynghyd i wneud gwahaniaeth i bobl Cymru.



## BALCHDER

Rydym yn arddel arloesedd ac yn dathlu ein llwyddiannau fel tîm.



## UN TÎM YDYM NI

Mae ein Gwerthoedd yn diffinio'r hyn a wnawn a sut yr ydym yn ei wneud, ac maent yn ein huno fel un tîm.



# Mae Amrywiaeth a Chynhwysiant yn sail i'n gweithgareddau pob dydd a'n cynllunio strategol



Mae cydweithwyr ar draws y sefydliad yn gweithio mewn ffordd arloesol i gynnwys Amrywiaeth a Chynhwysiant yn eu gwaith.

## Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ein galluogi i ystyried sut y gallai ein gwaith effeithio ar wahanol bobl. Maent yn ffordd o sicrhau bod anghenion gwahanol bobl yn cael eu hystyried yn llawn wrth ddatblygu neu adolygu pob math o weithgareddau megis polisïau, gweithdrefnau neu brosiectau. Mae ein Partneriaid Busnes Adnoddau Dynol yn cynnal cyfarfodydd misol gyda phob Pennaeth Gwasanaeth i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cynhaliwyd asesiadau o effaith ar amrywiaeth o waith gan gynnwys: Polisïau Adnoddau Dynol (megis ein Polisi Trawsnewid yn y Gwaith, Polisi Absenoldeb oherwydd Salwch, Polisi Urddas a Pharch, Polisi Gweithio Hybrid a Pholisi Newyddenedigol); newidiadau i'n hystad (megis adnewyddu Siambr y Senedd a newidiadau i fynedfa'r Senedd); a pholisïau, arferion a phrosiectau gwaith eraill (megis ein Polisi Deallusrwydd Artiffisial, ymgyrch etholiadol, a Phenderfyniad y Seithfed Senedd).

## Urddas a Pharch

Mae ein Polisi Urddas a Pharch yn nodi ein hymrwymiad i ddiwylliant cynhwysol sy'n rhydd o fwlio, aflonyddu, aflonyddu rhywiol ac erledigaeth. O ganlyniad i adborth staff yn sgil ein harolwg Urddas a Pharch, mae'r polisi hwn wedi'i adolygu a'i ddiweddaru'n llawn ac mae'n nodi:

- Diffiniadau manwl o ymddygiadau amhriodol gan gynnwys bwlio, aflonyddu, aflonyddu rhywiol, ac erledigaeth.
- Gweithdrefnau clir ar gyfer adrodd am unrhyw faterion neu bryderon, gan gynnwys mecanweithiau anffurfiol a ffurfiol.
- Y gefnogaeth y gall pobl gael mynediad ati, gan gynnwys rôl Swyddogion Cyswllt hyfforddedig.
- Manylion y fframwaith urddas a pharch cyffredinol sydd gan y sefydliad ar waith i ddangos camau i liniaru ymddygiad amhriodol.

- Mesurau i amddiffyn achwynwyr a thystion lle codir pryderon.
- Sut y bydd gwybodaeth yn cael ei phrosesu i reoli cyfrinachedd gan sicrhau proses deg.

## Ystad hygyrch

Rydym yn adolygu hygyrchedd ein hystad yn barhaus drwy gynnal archwiliadau cynnal a chadw misol ac archwiliadau misol o dir yr ystad, gan weithredu ar adborth. Rydym yn mabwysiadu arfer gorau ac yn ystyried gofynion mynediad ar gyfer yr holl waith adnewyddu.

- Y prosiect mwyaf a wnaed yn ystod y cyfnod hwn oedd adnewyddu'r siambr ddadlau yn y Senedd i wella hygyrchedd a darparu lle i Aelodau ychwanegol yn dilyn etholiad Mai 2026. Roedd prosiect Siambr 26 yn cynnwys disodli'r llawr grisiog gyda llwybrau cerdded â ramp, codi safle'r Llywydd i wella llinellau golwg gyda ramp cwbl hygyrch i gyrraedd y safle uchel hwn, gweithio'n agos gydag ymgynghorydd hygyrchedd drwy gydol y camau dylunio ac adeiladu a chynnal Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y prosiect.
- Gwnaethom wella hygyrchedd drwy ddarparu agoriadau drysau awtomatig ychwanegol.
- Gwnaethom barhau â'r rhaglen o osod goleuadau LED i wella gweledadd yn y Senedd i bobl â nam ar eu golwg, a phobl ag epilepsi sy'n sensitif i olau.
- Gwnaethom gymryd camau adferol i atgyweirio a gwella goleuadau allanol y Pierhead.
- Gwnaethom osod arwyddion newydd wrth fynedfa'r Senedd.
- Gwnaethom hyrwyddo ein llwyddiant o ran cyflawni Safon Caffi Teuluol Kids in Museums, gan amlinellu newidiadau diweddar, megis cyfleusterau cynhesu poteli bwydo babanod, gorsaf llenwi poteli dŵr, mwy o arwyddion, ac ardal well i blant.
- Gwnaethom welliannau i'n prosesau cynnal a chadw tiroedd i atal llithro, baglu a chwympo.

- Gwnaethom gomisiynu archwiliad synhwyraidd o fannau cyhoeddus ein hystad i sicrhau bod ein hadeiladau'n groesawgar ac yn gynhwysol i bobl sy'n niwroamrywiol.

## Strategaeth Pobl a Diwylliant

Mae ein **Strategaeth Pobl a Diwylliant** yn nodi sut rydym, fel sefydliad, yn creu ac yn datblygu ein tîm er mwyn cyflawni ein nodau sefydliadol. Mae'n amlinellu ein 'cynnig' i'n gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol, gan nodi sut y byddwn yn defnyddio talentau'r gweithlu i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl i'r Senedd, a sut y byddwn yn gofalu am weithlu'r Comisiwn, ac yn datblygu staff ac yn ymgysylltu â hwy.

Mae'r Strategaeth hon yn fframwaith sy'n ein galluogi i ddenu, meithrin a helpu ein gweithlu i ffynnu a darparu gwasanaeth o'r radd flaenaf i Aelodau o'r Senedd. Yn ogystal, mae'n cynorthwyo'r broses o gyfuno strategaethau, ffrydiau gwaith a gweithgareddau cysylltiedig presennol mewn pecyn cydlynol.

## Ffyrdd eraill y mae Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cael eu hymgorffori yn ein gwaith:

### Atebolrwydd uwch

Er mwyn hyrwyddo atebolrwydd uwch a pherchnogaeth dros ein Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ymhellach, mae gan bob un o aelodau ein Bwrdd Gweithredol amcan Amrywiaeth a Chynhwysiant yn eu hadolygiadau perfformiad. Maent hefyd wedi gwneud ymrwymiadau maes gwasanaeth o ran llesiant.

### Meithrin partneriaethau

Mae gennym berthynas waith glos â nifer o bartneriaid strategol allanol, rhwydweithiau'r sector cyhoeddus a chymheiriaid rhyngseneddol sy'n darparu cyngor, arweiniad ac adnoddau ar wahanol bynciau i'n helpu i wreiddio cynhwysiant ymhellach.

### Fforwm Partneriaeth: Cyfarfodydd rhwng Ochr yr Undebau Llafur a Rheolwyr

Mae aelodau ein hundebau llafur cydnabyddedig (a elwir ar y cyd yn Ochr yr Undebau Llafur) yn cyfarfod yn rheolaidd â'n huwch reolwyr i drafod materion strategol a gweithredol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn sicrhau bod deialog gyson

rhwng ein harweinwyr a chynrychiolwyr y staff ac yn helpu i ddatblygu polisïau cynhwysol ac ymwreiddio ymhellach ymdeimlad o berthyn i'n staff.

## Recriwtio

Rydym wedi adnewyddu ein Polisi Recriwtio yn dilyn gwaith ymgynghori helaeth. Mae'r polisi, sydd wedi'i adnewyddu, yn cryfhau ein dull o recriwtio drwy gefnogi'r broses o gyflawni'r Strategaeth Pobl a Diwylliant a'r Cynllun Gweithlu, gan alluogi gwneud penderfyniadau sy'n fwy strategol ac yn seiliedig ar dystiolaeth, ac atgyfnerthu cysondeb, tryloywder a chynhwysiant ar draws arferion recriwtio. Mae, hefyd, yn adlewyrchu dysgu gweithredol ac adborth ar y polisi a'r gweithdrefnau blaenorol.

Bu'r broses adolygu ac ymgynghori'n ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys y Tîm Arwain a'r Bwrdd Gweithredol, rhwydweithiau cydraddoldeb, Grŵp Llywio'r Gweithlu ac Ochr yr Undebau Llafur, drwy gyfrwng ymgynghori ffurfiol, trafodaethau Fforwm Partneriaeth a sesiynau ymgysylltu pwrpasol.

Mae'r dull cydweithredol hwn wedi sicrhau bod y polisi sydd wedi'i adnewyddu yn un cadarn, yn gynhwysol ac yn addas at y diben.

Mae ein gwefan gyrfaoedd wedi cael ei hadnewyddu i ddarparu gwybodaeth fwy effeithlon amdanom ni fel cyflogwr, gan gynnwys canllawiau i ymgeiswyr newydd. Mae proffiliau a straeon staff wedi cael eu hadnewyddu i roi cipolwg i ddarpar weithwyr ar y math o rolau sydd gennym, a sut beth yw gweithio gyda ni.

## Recriwtio ar gyfer penodiadau cyhoeddus a phenodiadau'r Goron

Mae rôl y Senedd a Chomisiwn y Senedd mewn penodiadau cyhoeddus a phenodiadau'r Goron yn amrywio yn ôl pob proses benodi. Rydym yn parhau i gasglu, dadansoddi a monitro data ar amrywiaeth yr ymgeiswyr ar gyfer pob penodiad Cyhoeddus a phenodiad y Goron er mwyn datblygu set ddata gyfoethocach. Rydym wedi treialu ceisiadau dienw ar gyfer ein hymgyrchoedd diweddaraf ac yn gweithio gyda'n partneriaid chwilio am weithwyr gweithredol i gynyddu ac amrywio'r llinellau talent a'r paneli ar gyfer penodiadau uwch i'r Comisiwn, penodiadau cyhoeddus a phenodiadau'r Goron.

Mae ein tudalennau ar y we ynghylch penodiadau cyhoeddus, hefyd, wedi cael eu diweddaru i ddarparu gwybodaeth am yr ystod o benodiadau, ac i roi gwybodaeth gyffredinol am ymgeiswyr, gyda'r nod ddenu'r ystod ehangaf o ddarpar ymgeiswyr.

## Grŵp Llywio'r Gweithlu

Mae Grŵp Llywio'r Gweithlu yn darparu goruchwyliaeth strategol o'n blaenoriaethau o ran y gweithlu a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae'r Grŵp:

- Yn cefnogi datblygiad y gweithlu i sicrhau bod gennym staff sydd â'r sgiliau, y cymwyseddau a'r wybodaeth i ddarparu cymorth a gwasanaethau effeithiol i'r Senedd.
- Yn sicrhau bod yr amgylchedd gwaith i staff yn amgylchedd cadarnhaol sy'n hyrwyddo diwylliant agored sy'n cefnogi ein gwerthoedd.
- Yn sicrhau bod iechyd a llesiant yn parhau i fod yn flaenoriaeth.
- Yn gwneud argymhellion ar faterion y gweithlu i'r Bwrdd Gweithredol.

Mae'r Grŵp Llywio'r Gweithlu, hefyd, yn gweithio mewn partneriaeth â'r Llywio Amrywiaeth a Cynhwysiant i sicrhau bod cynhwysiant yn rhan annatod o'n rhaglenni gwaith strategol ar gyfer y dyfodol. Mae'r prif effeithiau'n cynnwys:

- Adnewyddu dadansoddiad PESTLE i ddeall yn well y ffactorau allanol sy'n effeithio ar y Comisiwn.
- Trafod a blaenoriaethu gweithgareddau cynllunio'r gweithlu ar gyfer y Comisiwn, gan gynnwys ystyried cynigion ar gyfer fframwaith rheoli talent a'r polisi recriwtio wedi'i adnewyddu.
- Cyfrannu at drafodaethau ar faterion gweithredol sy'n ymwneud â recriwtio a gweithgareddau'r gweithlu.
- Trafod sut y gall aelodau Grŵp Llywio'r Gweithlu, sydd ar y Tîm Arwain, sicrhau bod eu gwasanaethau'n ymrwymo i'r strategaeth.

## Y Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae’r Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant yn chwarae rhan hanfodol wrth feithrin gweithle cynhwysol a blaengar. Un o swyddogaethau craidd y grŵp hwn yw sicrhau bod amrywiaeth a chynhwysiant yn parhau i fod yn ganolog i'n prosesau llywodraethiant a gwneud penderfyniadau. Mae'r grŵp wedi cefnogi hyn drwy:

- Cyfrannu at adroddiadau busnes fel arfer a gyflwynir i'r Bwrdd Gweithredol, gan sicrhau bod ystyriaethau o ran amrywiaeth a chynhwysiant wedi'u hymgorffori'n gyson.
- Goruchwylio cynnydd ar y Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant, gan ddarparu gwaith craffu ac atebolrwydd ar amcanion sy'n weddill.
- Cynnig cipolwg ac argymhellion ar y Strategaeth Pobl a Diwylliant ddrafft ar gyfer 2025–2028, gan sicrhau bod cynhwysiant yn parhau i fod yn hanfodol i gyflawni blaenoriaethau pobl y Comisiwn.
- Sefydlu is-grŵp ar gyfer y Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant, ar wella cyfathrebu ac ymgysylltu â chymunedau amrywiol, gan gryfhau effaith ymgyrchoedd cynhwysol ac ymdrechion allgymorth.

Yn sgil rhannu profiadau bywyd a mewnwelediadau proffesiynol, mae aelodau’r Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi helpu i lunio polisïau ac arferion sy'n adlewyrchu gwerthoedd tegwch, cydraddoldeb a chynhwysiant. Mae eu cyfraniadau wedi bod yn allweddol wrth sbarduno newid ystyrlon, ac edrychwn ymlaen at adeiladu ar y momentwm cadarnhaol hwn yn y blynyddoedd i ddod.

## Caffael

Mae cyfle cyfartal wedi'i gynnwys fel rhan o'n hasesiadau risg cynaliadwyedd, sy'n cael eu cynnal ar ddechrau ein proses gaffael. Yn ogystal â hynny, mae ein proses cyn-gymhwyso ar gyfer tendrau yn cynnwys ystyriaethau cydraddoldeb i gyflenwyr. Ni fydd cyflenwyr sy'n methu â dangos eu hymrwymiad i gydraddoldeb yn cael eu cynnwys ar ein rhestrau tendr.

Rydym yn cynnal cyfarfodydd adolygu contractau rheolaidd gyda'n prif gyflenwyr ac un o'r eitemau safonol ar yr agenda yw cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol. Rydym yn gweithio gyda'n cyflenwyr i fonitro a sicrhau arferion cyflogaeth teg ac rydym yn cadw'r hawl i ofyn am newidiadau i unrhyw un o'r arferion yr ystyriwn eu bod yn annheg. Mae hyn hefyd yn rhwymedigaeth gytundebol sy'n rhan o'n telerau ac amodau.

Rydym yn gyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol achrededig, ac rydym yn sicrhau bod ein contractwyr mewnol yn cael eu talu uwchlaw'r gyfradd cyflog byw gan eu cyflogwyr, ac rydym hefyd wedi gweithio gyda nhw i wella eu polisi salwch.

Aeth aelod o'r tîm yn ddiweddar i weithdy a hwyluswyd gan Busnes yn y Gymuned, lle y trafodwyd canfyddiadau ei arolwg o Arweinwyr, Gweithwyr a Phrosesau Caffael a oedd yn canolbwyntio ar amrywiaeth mewn cadwyni cyflenwi. Tynnodd y sesiwn sylw at:

- Arferion gorau o ran prosesau caffael sy'n gynhwysol i gyflenwyr sy'n cael eu harwain gan bobl Ddu, Asiaidd, Hil Gymysg, a grwpiau ethnig amrywiol eraill.
- Y rhwystrau y mae'r cyflenwyr hyn yn eu hwynebu a sut i'w goresgyn.
- Astudiaethau achos o strategaethau caffael cynhwysol llwyddiannus gan fusnesau blaenllaw.

Mae'r hyn a ddysgwyd o'r digwyddiad hwn yn cael ei ymgorffori yn ein gwaith ar gyfer y dyfodol.

Rydym wedi cynnwys adran yn ein dogfennau tendr, lle rydym yn cyfeirio cyflenwyr i ymuno â'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd.

## Diogelwch

Yn dilyn ymlaen o'r llynedd, mae ein tîm pwrpasol, Tîm Diogelwch yr Aelodau, yn ymgymryd â gwaith parhaus i wella diogelwch a hygyrchedd o fewn swyddfeydd etholaethol a rhanbarthol, gan wella hygyrchedd i swyddfeydd i aelodau'r cyhoedd.

Mae ein Tîm Diogelwch hefyd yn parhau i hyrwyddo cynhwysiant drwy:

- Darparu addasiadau rhesymol i staff, megis diwygio patrymau sifftiau ac addasu rotâu i ganiatáu i bobl weddïo, ymweld â mosg a dathlu Ramadan.
- Darparu addasiadau rhesymol i staff sy'n dathlu'r Grawys. Amser gweddi ac amser myfyrio.
- Sicrhau bod ein gwisgoedd yn diwallu anghenion ein staff; yn ddiweddar rydym wedi darparu esgidiau safon iechyd a diogelwch ar gyfer y gwasanaeth.
- Sicrhau bod ymwelwyr yn cael croeso cynhwysol drwy addasu gweithdrefnau, rhagweld anghenion ymwelwyr a chynnal hyfforddiant gwasanaeth cwsmeriaid cynhwysol.
- Diweddarwyd ein cod ymddygiad i ymwelwyr er mwyn sicrhau cysondeb i bob ymwelydd â'r Senedd.
- Darparwyd “taith rithwir” o’r cynllun Diogelwch newydd yn y Senedd i roi rhybudd ymlaen llaw i aelodau’r cyhoedd o’r hyn sydd i’w ddisgwyl.

## TGCh a Darlledu

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i gryfhau ein hymrwymiad i gynhwysiant digidol drwy ehangu'r offer, y gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael i Aelodau, eu staff, cydweithwyr yn y Comisiwn ac aelodau'r cyhoedd.

Mae'r dudalen Offer Hygyrchedd ac Addasiadau Rhesymol newydd ar ein mewnrwyd yn darparu ffordd ganolog a hawdd-i- o lywio adnodd sy'n amlinellu'r ystod lawn o dechnolegau cynorthwyol sydd ar gael ar draws llwyfan Microsoft 365. Mae'r dudalen, hefyd, yn tynnu sylw at y broses ar gyfer gwneud cais am offer arbenigol a meddalwedd gynorthwyol gymeradwy – gan gynnwys offer megis Dragon Professional, Read & Write a Global Tasks – fel rhan o'n fframwaith addasiadau rhesymol. Mae hyn yn sicrhau bod staff sydd ag

anghenion o ran eu golwg, eu clyw, eu symudedd, eu gwybyddiaeth, neu eu niwroamrywiaeth-yn gallu cael mynediad at yr offer sydd eu hangen i weithio'n effeithiol ac yn hyderus.

## Cefnogi cynnydd Iaith Arwyddion Prydain (Mesur Iaith Arwyddion Prydain)

Chwaraeodd ein tîm TGCh a Darlledu ran allweddol yn cefnogi'r Senedd wrth iddi ystyried a chyflawni Bil Iaith Arwyddion Prydain, gan sicrhau y gallai arwyddwyr Iaith Arwyddion Prydain byddar gael mynediad at y trafodion drwy gydol y broses ddeddfwriaethol.

Gan weithio'n agos gyda darlledwr y Senedd, timau clercio a dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain arbenigol, sefydlodd y gwasanaeth y trefniadau technegol sy'n ofynnol ar gyfer darparu dehongliad Iaith Arwyddion Prydain yn fyw ar draws trafodion y Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau, gan gefnogi pob cam o daith y Bil.

Cafodd llifau gwaith darlledu eu gwella er mwyn integreiddio'r broses o ddehongli Iaith Arwyddion Prydain yn fyw i'r darllediad safonol, gan sicrhau bod hynny'n cael ei ddarparu mewn modd dibynadwy ac o ansawdd darlledu, ac ar gael i gynulleidfaoedd ar ystad y Senedd ac o bell ar Senedd TV.

Sicrhaodd y trefniadau technegol a roddwyd ar waith fod arwyddwyr Iaith Arwyddion Prydain yn gallu dilyn dadleuon mewn amser real, yn hytrach na dibynnu ar fynediad yn hwyrach. Roedd hyn yn arbennig o bwysig o ystyried hyd, cymhlethdod ac arwyddocâd y gwaith craffu ar y Bil.

Roedd y gwaith, hefyd, yn cefnogi cyfranogiad hygyrch o fewn adeilad y Senedd, gan alluogi ymwelwyr yn yr oriel gyhoeddus a'r Neuadd i wylio'r trafodion gyda dehongliad Iaith Arwyddion Prydain yn ystod dadleuon. Helpodd hyn i sicrhau nad oedd pobl fyddar yn arsylwi'r broses ddeddfwriaethol yn unig, ond yn hytrach eu bod yn gallu ymgysylltu â hi'n uniongyrchol.

Dangosodd y gwaith a wnaed i gefnogi Bil Iaith Arwyddion Prydain sut y gall technoleg a gwasanaethau darlledu gefnogi cyfranogiad democrataidd cynhwysol. Yn sgil ymgorffori hygyrchedd yn y broses o gyflwyno'r trafodion, helpwyd i sicrhau y gallai pobl fyddar ledled Cymru ymgysylltu'n llawn â deddfwriaeth sy'n effeithio'n uniongyrchol arnynt.

Creodd y gwelliannau a gyflawnwyd yn ystod cynnydd Bil Iaith Arwyddion Prydain fuddion ehangach a pharhaol. Galluogodd trefn ddarlledu well y

Senedd i ddarparu dehongliad Iaith Arwyddion Prydain yn fyw ac yn ddi-dor ar gyfer Cwestiynau'r Prif Weinidog o fis Rhagfyr 2025 ymlaen, gan ddisodli'r ddarpariaeth hwyrach. Roedd hyn yn gam sylweddol ymlaen o ran gwneud busnes seneddol craidd yn hygyrch wrth iddo ddigwydd.

Ochr yn ochr â dehongli Iaith Arwyddion Prydain, mae TGCh a Darlledu yn parhau i gynorthwyo gyda chyflawni ystod o fesurau hygyrchedd ar gyfer cynulleidfaoedd byddar, a phobl sydd â nam ar eu clyw.

Mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr a chwsmeriaid i sicrhau bod technolegau cynorthwyol priodol ar waith i bob defnyddiwr system. Mae hyn yn cynnwys cadw i'r funud o ran anghenion newidiol yr Aelodau, staff yr Aelodau, ein staff ni, ac ymwelwyr drwy fabwysiadu ystod o dechnolegau i gefnogi hygyrchedd, megis darparu cefnogaeth yn ystod digwyddiadau a thrafodion i balanteipyddion lleferydd-i-destun, cynnal datrysiadau a brofwyd megis systemau dolen sain ar gyfer clyw cynorthwyol, a gwerthuso technolegau clyw newydd â chymorth Bluetooth ar ein hystad.

Er mwyn cefnogi cyfranogiad cynhwysol a di-rwystr mewn digwyddiadau cyhoeddus, mae'r Senedd yn disodli ei system gyfieithu a'i dolen sain gludadwy bresennol gyda system newydd sbon gyda phopeth yn yr un man. Mae'r system yn cydymffurfio â DIN EN 60118 4, gan ddarparu sain glir grisial ac eglurder lleferydd rhagorol i ddefnyddwyr cymhorthion clyw. Mae'r ffaith nad oes llawer o oedi, hefyd, yn golygu bos y system yn gydnaws â chydamseru gwefusau ac, i ddefnyddwyr â nam ar eu golwg, gall y system ddarparu gwasanaethau darlledu i ddeillion, a disgrifiadau sain.

Rydym yn parhau i ddatblygu prosiect aml-flwyddyn i osod systemau a seilwaith darlledu newydd. Un o brif sbardunau'r gwaith hwn yw gwella hygyrchedd drwy wella isdeitlau a chapsiynau caeedig, yn ogystal ag opsiynau newydd ar gyfer arddangos dehongliad Iaith Arwyddion Prydain.



# Arweinyddiaeth a diwylliant sy'n cael eu harwain gan werthoedd



# Hyfforddiant Amrywiaeth a Chynhwysiant, a chodi ymwybyddiaeth

Mae ein holl gydweithwyr yn deall eu rôl o ran hyrwyddo cynhwysiant a meithrin gweithle ac amgylchedd seneddol cynhwysol.

## Hyfforddiant

Rydym yn deall bod dysgu a datblygu yn allweddol i ddatblygu gweithlu ymgysylltiedig a chynhwysol. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn rydym wedi parhau i ddarparu cyfres o gyfleoedd dysgu i'n staff a chynnig dysgu ffurfiol, a chodi ymwybyddiaeth anffurfiol fel ei gilydd – gan alluogi staff i gyflawni eu potensial a deall profiadau amrywiol cydweithwyr, ymwelwyr a phobl Cymru yn well.

Rydym yn parhau i adolygu ein cyrsiau mewnol o safbwynt cynhwysiant ac yn gweithio i gael achrediad Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer ein holl gyrsiau mewnol. Mae'r broses hon yn cynnwys sicrhau bod ein cyrsiau'n hygyrch, yn gynrychioliadol, ac yn cefnogi anghenion amrywiol ein gweithlu. Drwy ymgorffori cynhwysiant mewn datblygiad proffesiynol, rydym yn meithrin amgylchedd dysgu lle y gall pob cydweithiwr ffynnu.

### Recriwtio cynhwysol

Cynigir yr hyfforddiant hwn yn fewnol i gefnogi ein paneli recriwtio i ddarparu addasiadau rhesymol ac arferion gwaith teg wrth gefnogi ymgeiswyr y Senedd yn ystod y cyfnod ymgeisio a chyfweld. Mae'r gwaith hwn wedi ein galluogi ni, fel cyflogwr Hyderus o ran Anabledd, i barhau i chwalu rhwystrau a lleihau'r potensial ar gyfer gwahaniaethu a rhagfarn; gan ganiatáu i aelodau o’r panel ddarparu profiad cadarnhaol i ymgeiswyr drwy gydol y broses recriwtio.

## Atal aflonyddu rhywiol

Mae ein hyfforddiant gorfodol ar atal aflonyddu rhywiol wedi'i gynllunio i atgyfnerthu ein hymrwymiad i greu gweithle diogel, parchus a chynhwysol i bob gweithiwr. Mae'r hyfforddiant yn helpu i sicrhau bod staff yn deall yn glir yr hyn a olygir wrth ymddygiad annerbyniol, sut i'w adnabod a'i herio, a'r llwybrau ar gyfer cael cefnogaeth, neu i roi gwybod am bryderon. Mae, hefyd, yn ein cefnogi i gyflawni ein cyfrifoldebau cyfreithiol a moesegol o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb a chyflogaeth y DU, gan leihau risg a chryfhau diwylliant lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gallu cyfrannu heb ofni aflonyddu na gwahaniaethu.

## Dysgu a Datblygu Rhyngseneddol

Mae ein gwaith Dysgu a Datblygu Rhyngseneddol wedi mynd o nerth i nerth eleni. Gan weithio gyda chydweithwyr seneddol o bob cwr o'r DU a Gweriniaeth Iwerddon, rydym wedi cyflwyno cyfres o ddigwyddiadau dysgu yn llwyddiannus drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r digwyddiadau hyn wedi rhoi sylw i gynhwysiant ac wedi galluogi pawb i feddwl am bwysigrwydd cael gweithle amrywiol – yn ogystal â sut y gallwn greu amgylcheddau diogel, cynhwysol a chroesawgar i gydweithwyr, ymwelwyr a phobl Cymru.

### Wythnos Dysgu yn y Gweithle

Ar gyfer wythnos Dysgu yn y Gweithle, cynhaliwyd amrywiaeth o sesiynau a gweithdai i ysbrydoli ac ennyn brwdfrydedd cydweithwyr a chymheiriaid rhyngseneddol – gan gynnwys sesiynau ar bŵer mentora, sut i gynnal rhwydweithiau staff effeithiol, cemeg cydweithio a sut i feithrin perthnasoedd cadarnhaol yn y gweithle orau. Cynhaliwyd sesiynau hefyd ar Iaith Arwyddion Prydain, Gaeleg yr Alban, Gaeleg Gwyddelig a’r Gymraeg.

### Mis Cynhwysiant

Yn ystod Mis Cynhwysiant cafwyd amrywiaeth o ddigwyddiadau cyffrous, gan gynnwys: Gweithdy i ofalwyr yn canolbwyntio ar y ffordd orau o gydbwyso gwaith a chyfrifoldebau gofalu; panel holi ac ateb gydag uwch arweinwyr rhyngseneddol ar iechyd meddwl dynion; cyfathrebu cynhwysol, a sesiwn awr o yn gwahodd seneddwyr i gymryd rhan mewn sgyrsiau adeiladol ynghylch hil ac ethnigrwydd.

## Mis Hanes LHDTC+

I nodi Mis Hanes LHDTC+ 2026, gwnaethom gefnogi cyfres o sesiynau addysgiadol a diddorol gyda'r bwriad o feithrin dealltwriaeth, myfyrio ar brofiadau bywyd a chryfhau cynhwysiant a chyfeillgarwch. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant ar ymwybyddiaeth trawsryweddol, a gefnogodd gydweithwyr ar sut i fod yn gynghreiriad gwell i bobl draws yn y gwaith, sesiwn drafod ryngweithiol ar gynhwysiant LHDTC+ a bod yn Gyfaill a sesiwn ar wyddoniaeth, arloesedd ac anghydraddoldebau iechyd LHDTC+ a gynhaliwyd gan Dŷ'r Arglwyddi.

## Y Rhaglen Fentora Ryngseneddol

Rydym wedi gweithio gyda chydweithwyr o Gynulliad Gogledd Iwerddon, Tŷ'r Arglwyddi a Thŷ'r Cyffredin i ddatblygu rhaglen fentora sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad proffesiynol a phersonol ac adeiladu rhwydweithiau ar draws y Seneddau.

# Codi ymwybyddiaeth ar gyfer diwylliant cynhwysol






- Rydym wedi hyrwyddo llawer o ddiwrnodau ymwybyddiaeth drwy gydol y flwyddyn, megis Wythnos Ymwybyddiaeth Traws, Eid, y Pasg, Mis Hanes Teithwyr Sipsiwn Roma, Diwrnod Syndrom Down y Byd, Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd, gŵyl Holi, Hanukkah, Blwyddyn Newydd y Lleuad, Pride, Mis Hanes Pobl Dduon, Diwali, cynhwysiant anabledd, a Mis Hanes Menywod.

- Rydym yn cyhoeddi gair o gyngor wythnosol ar fod yn gyfaill Amrywiaeth a Chynhwysiant, gan gwmpasu ystod o bynciau megis rhywiaeth garedig, ymwybyddiaeth ynghylch galar, rhagfarn ar sail oedran, cynhyrchu gwybodaeth hygyrch, dibwyllo hiliol, dathlu Calan Gaeaf yn barchus, a dathlu teuluoedd amrywiol.

- Goleuwyd y Senedd gyda lliwiau baner yr enfys (neu baner Pride) ar gyfer y Diwrnod Rhyngwladol yn erbyn Homoffobia, Biffobia a Thrawsffobia.

- Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i fod yn gyflogwr sy'n gyfeillgar i'r menopos, fe wnaethom nodi Diwrnod Menopos y Byd trwy gynnal Caffi'r Menopos, lle diogel a chefnogol i gynnal sgwrs agored.

- Gwnaethom nodi Diwrnod y Rhuban Gwyn drwy hyrwyddo ymwybyddiaeth o drais domestig a thrais yn erbyn menywod a merched, rhannu ein polisi cam-drin domestig ac adnoddau perthnasol ar ein hwb diogelu.

- I nodi Mis Ymwybyddiaeth Straen, croesawom siaradwr allanol i awgrymu sut i reoli straen mewn byd prysur a heriol. Yn y sesiwn hon, argymhellwyd chwe ymyrraeth i helpu staff i reoli a gwella eu lefelau straen.

# Cefnogi Iechyd, Diogelwch, Llesiant a Diogelu

## Llesiant

Gwnaethom barhau i fabwysiadu dull ar sail tystiolaeth o ran llesiant drwy gydol y cyfnod adrodd, gan dynnu ar fewnwelediadau o arolwg staff Gwanwyn 2025 a data'r gweithlu a gyflwynwyd drwy'r Dangosfwrdd Adnoddau Dynol.

Cafodd Cynlluniau Gweithredu Llesiant ar gyfer pob maes Gwasanaeth eu hadnewyddu gan alluogi Penaethiaid Gwasanaeth i dargedu gwelliannau cyson mewn meysydd lle'r oedd tueddiadau negyddol yn dod i'r amlwg.

Cyhoeddwyd cyfres o Gylchlythyrau Llesiant arbennig hefyd, gan ganolbwyntio ar endometriosis, y menopos a niwroamrywiaeth. Parhaodd gweithgarwch ymwybyddiaeth yn gryf drwy gydol y flwyddyn, gyda chyfathrebiadau'n cefnogi Mis Ymwybyddiaeth Endometriosis, Diwrnod Menopos y Byd, Mis Iechyd Dynion, Llesiant dros yr Ŵyl a themâu tymhorol eraill, yn ogystal ag ymgyrchoedd iechyd meddwl cenedlaethol gan gynnwys Diwrnod Amser i Siarad a Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd.

## Arolwg Llesiant – y prif ganfyddiadau

Mae canfyddiadau ein harolwg diweddaraf yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda'r metrigau'n symud i'r cyfeiriad dymunol yn gyffredinol o'i gymharu â'r arolwg blaenorol yng Ngwanwyn 2025.

- Cytunodd 79% o’r ymatebwyr bod y sefydliad yn gwneud gwaith da o ymgorffori llesiant yn niwylliant y gweithle, cynnydd o 3%.
- Cytunodd 82% eu bod yn gallu ‘dod â’u holl hunain i’r gwaith’ a bod yn driw i bwy ydyn nhw yn y gwaith heb gael eu barnu, gostyngiad bach o 84%.

## Iechyd corfforol

- Cynyddodd yr ymatebwyr a roddodd sgôr i'w hiechyd corfforol o gyfartaledd o 3.49 allan o 5 i 3.56 allan o 5.
- Mae canran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi gweithio tra'n sâl wedi gostwng yn sylweddol o 47% i 39%.

## Iechyd meddwl

- Mae cynnydd wedi bod yn sgôr iechyd meddwl staff – o 3.31 allan o 5 i 3.35 allan o 5.
- Bu gostyngiad bychan yn nifer y staff a ddywedodd eu bod wedi profi straen sy'n gysylltiedig â gwaith dros y chwe mis diwethaf; ar 47% erbyn hyn, o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol, sef 50%.
- Dywedodd 77% o staff bod eu llwyth gwaith yn addas ar gyfer eu horiau. Yn ôl 19% o ymatebwyr roedd ganddyn nhw ormod o waith, a dywedodd 4% o ymatebwyr nad oes ganddyn nhw ddigon o waith ar gyfer eu horiau contract.
- Mae'r 3 phrif beth sy'n peri straen ac yn gysylltiedig â gwaith yn parhau i fod yr un fath: Llwyth gwaith, gofynion/terfynau amser munud olaf a chyflenwi ar gyfer rôl. Fodd bynnag, mae canran yr ymatebwyr wnaeth nodi bod y rhain yn ffactorau cyfrannol wedi lleihau.

## Cysylltiad cymdeithasol

- Teimlai'r mwyafrif helaeth o ymatebwyr eu bod yn cael eu cefnogi, a'u bod wedi'u cysylltu â'u tîm, ac roeddent yn cytuno bod eu llesiant o bwys i'w rheolwr llinell (94% a 95% yn y drefn honno). Mae'r rhain yn gymharol â'r arolwg blaenorol.
- Teimlai 89% eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan eu tîm rheoli.

## Llesiant ariannol

- Cytunodd 73% o'r ymatebwyr fod y cytundeb cyflog wedi gwella eu lles ariannol. Tynnodd yr ymatebion sylw at y ffaith bod y dyfarniad cyflog wedi helpu staff i reoli costau byw cynyddol, talu dyledion, a gwella eu sefyllfa ariannol gyffredinol.
- Cytunodd 77% ein bod yn darparu digon o gefnogaeth a gwybodaeth ariannol.

## Trefniadau gwaith a chefnogaeth gyffredinol i staff

- Roedd 91% o'r ymatebwyr yn fodlon neu'n fodlon iawn â'u trefniadau gwaith ac nid oedd gan 86% unrhyw bryderon presennol am eu hiechyd, eu diogelwch na'u llesiant o ran mynd i’r safle i weithio.
- Mae lefel sylweddol o ymwybyddiaeth ynghylch y mecanweithiau cymorth sydd ar gael, gyda chyfradd ymwybyddiaeth o ran saith allan o'r wyth mecanwaith a arolygwyd yn 80% neu’n uwch.

### Ymgorffori llesiant: Cefnogi staff yn ein gwasanaeth ymchwil

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Ymchwil y Senedd wedi cymryd mwy o gamau i hyrwyddo cynhwysiant drwy gryfhau’r modd yr ydym yn cefnogi iechyd a llesiant staff. Yn dilyn cynnydd mewn presenoldeb, gwnaethom atgyfnerthu’r neges bod cymryd absenoldeb oherwydd salwch yn cael ei gefnogi’n llawn, a darparu canllawiau cliriach i reolwyr llinell ar helpu staff i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch absenoldeb, a chanfod arwyddion cynnar o orflinder. Trafododd timau, hefyd, rwystrau i gymryd absenoldeb salwch i sicrhau bod datrysiadau yn adlewyrchu profiadau go iawn staff.

Er mwyn cefnogi llesiant meddwl cynhwysol, gwnaethom wella gwelededd adnoddau iechyd meddwl a chydnabod pwysau ‘llwyth gwaith anweledig’ a all effeithio’n anghymesur ar gydweithwyr â chyfrifoldebau gofalu, anableddau neu bortffolios cymhleth. Rydym yn parhau i fonitro tueddiadau llesiant drwy arolygon llesiant Pwls.

Fe wnaeth cynnydd mewn straen sy'n gysylltiedig â gwaith ysgogi'r tîm i ganolbwyntio ar yr achosion sylfaenol yn hytrach na disgwyl i unigolion fod yn fwy gwydn yn unig. Erbyn hyn, mae grŵp Arweinwyr Tîm y gwasanaeth yn rhannu gwybodaeth i flaenoriaethu gwaith yn fwy realistig a theg ar draws timau, fel nad yw pobl yn cael eu gorlwytho. Mae cyfarfodydd rheolaidd i'r holl staff, hefyd ,yn helpu i sicrhau bod gan bawb fynediad cyfartal at wybodaeth. Gyda'i gilydd, mae'r camau hyn yn hyrwyddo amgylchedd sy’n fwy cefnogol a chynhwysol.

# Rhwydweithiau Cydraddoldeb yn y Gweithle

## Hyrwyddo cydraddoldeb gyda'n gilydd

Mae ein Rhwydweithiau Cydraddoldeb yn y Gweithle yn fannau lle gall cydweithwyr gysylltu, teimlo eu bod yn cael eu clywed, a helpu i lunio gweithle sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth a chynhwysiant mewn difrif. Mae pob sgwrs, pob syniad a rennir o fewn y rhwydweithiau hyn yn cyfrannu at wneud ein sefydliad yn gryfach ac yn decach i bawb.

## Llywio newid ar draws y sefydliad

Mae ein rhwydweithiau'n chwarae rhan hanfodol wrth ddylanwadu ar bolisïau ac arferion, gan sicrhau bod cydraddoldeb wedi'i wreiddio ym mhopeth a wnawn. Drwy gydweithio'n agos gydag arweinwyr a chydweithwyr, rydym yn helpu i droi egwyddorion yn weithredoedd. Boed hynny'n wella hygyrchedd, dathlu amrywiaeth ddiwylliannol, neu herio rhwystrau. Mae'r rhwydweithiau hyn yn bont rhwng staff a'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau, ac mae'r bont honno hyd yn oed yn gryfach o ganlyniad i'ch cyfranogiad.

## Angerdd ac ymrwymiad wrth wraidd

Mae ein hangerdd yn deillio o wybod y gallwn, gyda'n gilydd, greu gweithle lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u grymuso.

**EMBRACE**
Our Disability Workplace Equality Network

**INSPIRE**
Our Women's Workplace Equality Network

**MINDFUL**
Our Mental Health Support Network

**PLWS**
Our LGBTQ+ Workplace Equality Network

**REACH**
Our Race, Ethnicity and Cultural Heritage Network

**RISE**
Our Social Mobility Network

**TEULU**
Our Working Parent and Carer Network

Lansiwyd dau is-rwydwaith eleni – Café Neuro ar gyfer staff sy'n niwroamrywiol a Sied Senedd, grŵp cymdeithasol a chymorth i ddynion.

## Café Neuro

Eleni, roedd yn bleser gennym lansio Café Neuro ar gyfer staff sy’n niwroamrywiol. Mae'n lle cefnogol i gydweithwyr gysylltu, rhannu profiadau a helpu i lunio gweithle sy’n fwy cynhwysol i bawb. Mae'r grŵp eisoes wedi hyrwyddo ymwybyddiaeth o niwroamrywiaeth, wedi rhoi adborth amhrisiadwy ac mae un aelod wedi cyfarfod ag aelodau ein Bwrdd Gweithredol i drafod eu profiad o ymuno â'n sefydliad.

## Sied Senedd

Sefydlwyd ein sied dynion er mwyn darparu amgylchedd anffurfiol, pwysau isel, i gydweithwyr gwrywaidd gysylltu a chefnogi ei gilydd. Gan gydnabod bod y sgyrsiau gorau yn aml yn digwydd ‘ysgwydd wrth ysgwydd’ yn hytrach nag ar draws desg, gwnaethom gynllunio'r grŵp i greu mannau lle gall cyfeillgarwch ddatblygu.

Ers ein lansio, mae momentwm wedi cynyddu'n gyflym. Mae ein rhaglen o ddigwyddiadau a drefnwyd gennym ni yn adlewyrchu diddordebau amrywiol ein haelodau, gan amrywio o ddiwrnodau gêm ym Mharc yr Arfau Caerdydd i dreialon pêl-droed Gaeleg a theithiau sawna ym Mhorthcawl. Rydym, hefyd, wedi dechrau cydweithio â phartneriaid cymunedol, megis Cymdeithas Siediau Dynion y DU, i ddatblygu gweithdai ymarferol mewn gwaith coed a sgiliau technoleg.

> *“Mae Sied Senedd yn lle i ddynion o amgylch y Senedd ddod at ei gilydd y tu allan i rolau ffurfiol, i siarad, ymlacio a chefnogi ei gilydd. Boed hynny drwy weithgareddau ar y cyd, cyfarfodydd cerdded, neu drafodaeth yn unig, mae'r Sied yn lle i feithrin llesiant. Dim agendâu. Pobl yn unig.”*

Fel y mae un cydweithiwr yn ei ddweud, “mae dechrau sgwrs yn ei hun yn beth gwych”.

## REACH

Fel rhan o'n gwaith i nodi Ramadan, rhannodd ein rhwydwaith cydraddoldeb tyn y gweithle ar gyfer hil, ethnigrwydd a threftadaeth ddiwylliannol (REACH) wybodaeth am y mis sanctaidd, rhoddodd gyngor ar sut i gefnogi cydweithwyr, a gwahoddodd gydweithwyr i iftar, y pryd sy'n torri'r ympryd yn ystod Ramadan. Daeth staff at ei gilydd yn ein ffreutur ar ôl gwaith i dorri'r ympryd gyda dŵr a datys, wrth i imam lleol rannu gwybodaeth am ymprydio, iftar a Ramadan. Dilynwyd hyn gan bryd o fwyd, lle rhannodd cydweithwyr a ymunodd â'u cydweithwyr Mwslimaidd i roi cynnig ar ymprydio am y diwrnod, eu profiad.

## MINDFUL

Mae MINDFUL, ein rhwydwaith iechyd meddwl a llesiant, wedi parhau i ganolbwyntio ar annog staff i wneud amser yn eu diwrnod gwaith i ailgysylltu â chydweithwyr a chymryd amser i ffwrdd o sgriniau, trwy fynd tu allan gyda'i gilydd, a symud mwy pan yn cymryd egwyl.

I nodi Diwrnod Amser i Siarad, cynhaliodd y rhwydwaith sesiwn galw heibio i annog cydweithwyr i gynnal sgyrsiau agored am iechyd meddwl wrth gwblhau gweithgareddau ymwybyddiaeth ofalgar.

## PLWS

Cafodd ymarfer ymgynghori a gwrando ei gynnal gan y rhwydwaith dros wyliau'r haf, ac ar ôl hynny datblygwyd cynllun i adfywio'r rhwydwaith, gan gynnwys adolygu cynnwys y rhwydwaith ar y fewnrwyd, datblygu cysylltiadau allanol, meithrin cyfleoedd i aelodau ryngweithio, a hyrwyddo cyfleoedd dysgu a datblygu. Un arloesedd nodedig, gyda diolch i aelodau'r rhwydwaith, yw sefydlu grŵp llyfrau sy'n canolbwyntio ar weithiau gan awduron LHDTC+ Profodd hyn i fod yn ffordd ardderchog o ymgysylltu aelodau'r rhwydwaith mewn gweithgaredd perthnasol y gellid ei mwynhau.

## ENGAGE – ein rhwydwaith holl staff

ENGAGE yw ein rhwydwaith ar-lein sydd â'r nod o wella cyfathrebu, meithrin ymgysylltiad gweithwyr a hyrwyddo amgylchedd gwaith cadarnhaol. Mae'n caniatáu i'n holl staff fod yn rhan o'r broses o lywio eu profiad gwaith a rhannu a dathlu syniadau i ysgogi newid cadarnhaol. Mae'n cyfrannu at amgylchedd cadarnhaol a chynhyrchiol yn y gweithle, sydd â'n gwerthoedd wrth ei wraidd; Angerdd, Balchder, Parch ac Un Tîm.

# Un Senedd: Cymuned y Senedd – Perthyn a #UnTîm


## Un Senedd: Ein dwyn at ein gilydd

Rydym yn ymdrechu i feithrin ymdeimlad o gymuned ac undod ymhlith ein staff trwy gyfarfodydd rheolaidd i'r holl staff. Defnyddir y digwyddiadau hyn i rannu gwybodaeth gan ein tîm o uwch reolwyr, dathlu ein staff, croesawu siaradwyr allanol a helpu i wella ymdeimlad o berthyn a balchder yn ein cymuned yn y Senedd. Mae ein seremoni flynyddol ar gyfer gwobrwyo a chydnabyddiaethau yn dathlu gwaith ein staff gyda gwobrau sy'n cyd-fynd â'n gwerthoedd corfforaethol, sef Angerdd, Balchder, Parch ac #UnTîm. Dathlodd ein Heisteddfod greadigrwydd ein cydweithwyr gyda gwobrau am ffotograffiaeth, dysgu Cymraeg, barddoniaeth, perfformiadau cerddorol, straeon byrion, cystadleuaeth pobi a chystadleuaeth hynod gystadleuol yr anifail anwes mwyaf ciwt.




























Roeddem wrth ein boddau eleni i gael cwmni ein interniaid YMLAEN a chlywed am eu profiadau o weithio gyda ni ac gan Olive, un o aelodau Senedd Ieuenctid Cymru, a ddywedodd wrthym am gymdeithas LHDTC+ ei hysgol a'i gwaith yn y Senedd Ieuenctid.






Mae yna, hefyd, nifer o grwpiau eraill sy'n meithrin cysylltiadau a diwylliant o berthyn ac undod, gan gynnwys clwb ffotograffiaeth, y clwb llyfrau, grŵp cerdded Symud yn y Senedd, clwb ryseitiau, garddio a chadw gwenyn, a'n clwb beicio sied feiciau.

## Un Senedd: Chwaraeon y Senedd

Mae ein timau pêl-droed, rygbi a golff wedi parhau i ddwyn cydweithwyr ynghyd i godi arian ar gyfer elusennau a meithrin perthnasoedd â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus a seneddol.







## Pride Cymru


Roeddem megis enfys yn Pride Cymru. Roedd aelodau a Chyfeillion ein rhwydwaith PLWS wrth eu bodd yn ymuno â pharêd Pride Cymru unwaith eto i ddangos cefnogaeth i gymunedau LHDTC+ yng Nghymru a thu hwnt, ac i hyrwyddo'r Senedd fel cyflogwr a senedd gynhwysol.

Roedd yn hyfryd dathlu'r amrywiaeth sy'n peri bod Cymru mor arbennig.

Fel mae'r arwydd yn ei ddweud, rydym yn falch o gynrychioli pawb yng Nghymru.


















## Gwirfoddoli ac allgymorth cymunedol

Yn ystod Wythnos Genedlaethol y Gwirfoddolwyr, gwnaethom gymeradwyo a rhannu straeon gan staff sy'n gwirfoddoli'n rheolaidd, mewn digwyddiadau lleol megis Parkrun, a phan fyddant yn cefnogi elusennau megis y sefydliad achub cŵn lleol.

> *"I fi'n bersonol, mae gwirfoddoli'n golygu hybu fy iechyd meddwl a'm llesiant. Yn ôl arolwg annibynnol, roedd 84% o wirfoddolwyr yn teimlo'n hapusach, a galla i'n sicr dystio i hynny."*




Cafodd ein casgliad banc bwyd dros yr Ŵyl gefnogaeth dda unwaith eto gan gydweithwyr, a gafodd y dewis o gyfrannu'n uniongyrchol i'w banc bwyd lleol, rhoi arian gan ddefnyddio cod QR, neu ychwanegu cyfraniadau at flychau casglu ar draws ystad y Senedd. Gwnaethom gasglu i 100kg o fwyd a nwyddau ymolchi a gafodd eu danfon i Fanc Bwyd Caerdydd.

### Estyn allan i hyrwyddo cynhwysiant

Mae ein tîm Cyfreithiol yn gweithio ar y cyd â phrifysgolion i annog myfyrwyr i ystyried y Senedd fel un sy'n cynnig cyfleoedd o ran gyrfa. Maent yn hwyluso lleoliadau myfyrwyr yn rheolaidd. Yn benodol, rydym wedi lleoli myfyrwyr Safon Uwch drwy gynllun Ymddiriedolaeth Addysg Gyfreithiol yr Arglwydd Edmund-Davies (neu LEDLET). Elusen annibynnol yw LEDLET a sefydlwyd yn 2013 i wasanaethu pobl ifanc sy'n byw yng Nghymru, neu sydd â chysylltiad â Chymru, sydd â diddordeb mewn ymuno â'r proffesiwn cyfreithiol, yn enwedig y rheini sydd heb gysylltiad blaenorol â'r Gyfraith. Rydym, hefyd, yn hwyluso lleoliadau myfyrwyr drwy gynllun FAIRE sy'n anelu at gefnogi symudedd cymdeithasol yn y sector cyfreithiol.

# Symudedd cymdeithasol

I nodi Diwrnod Symudedd Cymdeithasol yn y DU, cyfarfu rhwydwaith RISE i groesawu aelodau newydd ac aelodau presennol. Mae'r enw'n adlewyrchu'r dyhead i bobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is gyrraedd eu potensial, a ffocws y rhwydwaith yw sicrhau bod pawb yn cael yr un cyfleoedd i lwyddo, waeth beth fo'u cefndir economaidd-gymdeithasol.

Eleni, datgelodd 50.1% o'n staff eu cefndir economaidd-gymdeithasol, o'i gymharu â 47.5% yn 2023, 48.5% yn 2024 a 51.7% yn 2025. Rydym yn parhau i annog pob aelod o staff i ddatgelu eu cefndiroedd i'n helpu i gynhyrchu set ddata fwy llewyrchus, a mwy cynhwysfawr. Mae'r wybodaeth hon yn hanfodol i ddeall cefndiroedd amrywiol ein gweithlu a nodi meysydd y gallwn eu gwella.

O ran y dyfodol, byddwn yn parhau i:

- Annog Datgelu Gwybodaeth am Gefndir: Cynyddu'r nifer sy'n datgelu eu cefndir economaidd-gymdeithasol er mwyn deall ein gweithlu'n well a theilwra ein mentrau yn unol â hynny.
- Gwella Arferion Recriwtio: Rhoi strategaethau recriwtio mwy cynhwysol ar waith er mwyn denu a chefnogi ymgeiswyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Cefnogi Datblygiad Gyrfa: Darparu rhaglenni datblygu gyrfa a mentora wedi'u targedu i sicrhau bod pob aelod o staff yn cael cyfleoedd cyfartal i dyfu a datblygu.


oud to
present
ryone in
Vales
IDECYMRU
#PRIDECYMRU

# Lle cynrychiolíadol, cynhwysol i weithio ynddo



# Ein gweithlu

Ein nod yw sicrhau bod ein gweithlu yn adlewyrchu'r gymdeithas y mae'r Senedd yn ei gwasanaethu a'i bod yn cael ei chynrychioli ar bob lefel yn ein sefydliad. Mae'r ystod ehangaf o bobl yn ystyried Comisiwn y Senedd fel darpar gyflogwr deniadol sy'n cynnig profiad unigryw a gwerth chweil i weithwyr sy'n gweithio wrth galon democratiaeth yng Nghymru. Mae ein cydweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu hannog a'u cefnogi cefnogi i gyrraedd eu llawn botensial.



## Defnyddio data

Mae ein system recriwtio ar-lein yn ein galluogi i gasglu data demograffig dienw ar bob ymgeisydd am swydd. Cesglir data mewnol drwy ein system Adnoddau Dynol/Cyflogres ac fe'u cyflwynir mewn ffordd sy'n golygu nad oes modd adnabod unrhyw unigolyn. Dim ond rhan fach iawn o'r adran Adnoddau Dynol sydd â mynediad at y data crai.

Cyhoeddir adroddiadau ar y gweithlu, ar recriwtio ac ar gyflog cyfartal ochr yn ochr â'r adroddiad naratif hwn.

## Nifer staff y Comisiwn

| 31 Mawrth 2026 | 31 Mawrth 2025 | 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| 539 o staff | 506 o staff | 503 o staff |

## Crynodeb o ddata gweithlu a recriwtio

### Oedran

#### Y gweithlu

| <21 | 21-30 | 31-40 | 41-50 | 51-60 | 61> |
|---|---|---|---|---|---|
| 0.7% | 14.5% | 30.2% | 33.0% | 17.0% | 4.2% |

Mae oedran cyfartalog cyflogeion Comisiwn y Senedd yr un fath â'r llynedd, sef 42.

#### Recriwtio

***Cynigion swyddi allanol***

| <20 | 20-39 | 30-39 | 40-49 | 50-59 | 60> |
|---|---|---|---|---|---|
| 3.8% | 50.0% | 16.7% | 20.5% | 7.7% | 0.0% |

***Cynigion swyddi mewnol***

| <20 | 20-39 | 30-39 | 40-49 | 50-59 | 60> |
|---|---|---|---|---|---|
| 0.0% | 9.8% | 39.0% | 39.0% | 9.8% | 0.0% |

## Anabledd

### Y gweithlu

| Anabl | Heb fod yn anabl | Dim data |
|---|---|---|
| 8.7% | 83.5% | 7.8% |

### Recriwtio

***Cynigion swyddi allanol***

| 2025-26 | 2024-25 | 2023-24 |
|---|---|---|
| 12.8% | 17.6% | 7.7% |

Roedd 16.8% o gyfanswm y ceisiadau gan bobl anabl.

***Cynigion swyddi mewnol***

| 2025-26 | 2024-25 | 2023-24 |
|---|---|---|
| 9.8% | 4.2% | 18.8% |

Roedd 12.6% o gyfanswm y ceisiadau gan bobl anabl.

## Ailbennu rhywedd

Mae llai na phump aelod o staff wedi nodi eu bod yn draws.

Roedd 4.2% o gyfanswm y ceisiadau am rolau allanol yn geisiadau gan ymgeiswyr a nododd eu bod yn draws o'i gymharu â 3.2% o ymgeiswyr yn 2025.

Roedd 4.2% o gyfanswm y ceisiadau am rolau mewnol gan ymgeiswyr a nododd eu bod yn draws, o'i gymharu â 3.2% o ymgeiswyr yn 2025

Roedd 0.8% o geisiadau allanol am swyddi yn geisiadau gan ymgeiswyr anneuaidd ond ni wnaed unrhyw gynigion swydd i'r ymgeiswyr hynny.

## Hil/ethnigrwydd

### Y gweithlu

Mae 6.1% o staff yn arddel hunaniaeth ethnig leiafrifol, o'i gymharu â 5.9% yn 2025 a 5.2% yn 2024.

| Lleiafrif ethnig | Gwyn | Dim data |
|---|---|---|
| 6.1% | 89.6% | 4.3% |

Mae 36.4% o staff sy'n arddel hunaniaeth ethnig leiafrifol yn cael eu cyflogi yn ein band cyflog isaf (gradd Cymorth Tîm), cynnydd o 33.3% ar y llynedd. Roedd hyn wedi gostwng yn barhaus dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, o 42.3% yn 2024, 45.5% yn 2023, 50% yn 2022, a 57.1% yn 2021.

### Recriwtio

Mae canran cyfanswm y ceisiadau gan ymgeiswyr sy’n arddel hunaniaeth ethnig leiafrifol wedi aros yn weddol sefydlog, sef 16.2% o gyfanswm y ceisiadau yn 2023-2024, 20.2% yn 2024-2025 a 17.8% eleni.

***Cynigion swyddi allanol***

| 2025-26 | 2024-25 | 2023-24 |
|---|---|---|
| 9.0% | 7.8% | 11.5% |

Roedd 17.8% o’r ceisiadau gan ymgeiswyr sy’n arddel hunaniaeth ethnig leiafrifol.

***Cynigion swyddi mewnol***

| 2025-26 | 2024-25 | 2023-24 |
|---|---|---|
| **0.0%** | 4.2% | 6.3% |

Roedd 5.0% o’r ceisiadau gan ymgeiswyr sy’n arddel hunaniaeth ethnig leiafrifol.

## Crefydd / Cred

### Y gweithlu

| Dim crefydd / cred | Cristion | Crefydd / cred arall | Dim data |
|---|---|---|---|
| 39.9% | 27.5% | 14.7% | 18.0% |

Mae staff sy'n uniaethu â chrefydd / cred arall (Agnostig, Anffyddiwr, Hindŵ, Mwslim, Bwdhydd, Zoroastriad) wedi cynyddu o 12.6% yn 2025 a 10.9% yn 2024.

### Recriwtio

***Cynigion swyddi allanol***

| Dim crefydd / cred | Cristion | Crefydd / cred arall | Byddai'n well gennyf beidio â dweud / heb ateb |
|---|---|---|---|
| 43.6% | 20.5% | 28.2% | 7.7% |

***Cynigion swyddi mewnol***

| Dim crefydd / cred | Cristion | Crefydd / cred arall | Byddai'n well gennyf beidio â dweud / heb ateb |
|---|---|---|---|
| 53.7% | 26.8% | 12.2% | 7.3% |

## Rhyw

Mae ein gweithlu yn 50.6% o fenywod a 49.4% o ddynion. Menywod yw 52.1% o staff yn ein tri band cyflog uchaf eu swyddi, o'i gymharu â 50% yn 2025.

### Patrwm gweithio

| Menywod | | Dynion | |
|---|---|---|---|
| Amser llawn | Rhan-amser | Amser llawn | Rhan-amser |
| 74.7% | 25.3% | 94.4% | 5.6% |

### Recriwtio

***Cynigion Swyddi Allanol***

| Menywod | | | Dynion | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **2025-26** | 2024-25 | 2023-24 | **2025-26** | 2024-25 | 2023-24 |
| **41.0%** | 54.9% | 57.7% | **57.7%** | 45.1% | 42.3% |

Roedd 42.1% o gyfanswm y ceisiadau gan fenywod.

***Cynigion Swyddi Mewnol***

| Menywod | | | Dynion | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **2025-26** | 2024-25 | 2023-24 | **2025-26** | 2024-25 | 2023-24 |
| **61.0%** | 58.3% | 50.0% | **36.6%** | 41.7% | 50.0% |

Roedd 53.8% o gyfanswm y ceisiadau gan fenywod.

## Cyfeiriadedd rhywiol

### Y gweithlu

| **LHDC+[2]** | Heterorywiol/syth | **Byddai'n well gennyf beidio â dweud / Heb ateb** |
|---|---|---|
| **7.2%** | 81.3% | 11.5% |

Mae 7.2% o staff yn arddel hunaniaeth LHDC+, o'i gymharu â 6.1% yn 2025 a 5.4% yn 2024.

### Recriwtio

***Cynigion swyddi allanol***

| **2025-26** | **2024-25** | **2023-24** |
|---|---|---|
| 15.4% | 15.7% | 13.5% |

Roedd 15.6% o gyfanswm y ceisiadau gan bobl sy'n arddel hunaniaeth LHDC+.

[2] LHDC+: Cyfeiriadedd rhywiol Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Cwiar (neu Rywedd-gwestiynol) neu gyfeiriadedd rhywiol arall nad yw'n heterorywiol.

***Cynigion swyddi mewnol***

| 2025-26 | 2024-25 | 2023-24 |
|---|---|---|
| 7.3% | 0.0% | 18.8% |

Cafwyd 15.1% o geisiadau mewnol gan ymgeiswyr sy'n arddel hunaniaeth LHDC+.

## Adrodd ar y bwlch cyflog

### Y bwlch cyflog rhwng y rhyweddau – tâl fesul awr

| | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhyweddau** | -5.30% | -6.50% | -4.80% | -5.33% | -3.94% | -4.25% |
| **Y bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhyweddau** | -9.80% | -9.75% | 0.00% | 0.00% | 0.00% | 0.00% |

### Y bwlch cyflog o ran ethnigrwydd – tâl fesul awr

| | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y bwlch cyflog cymedrig o ran ethnigrwydd** | 28.10% | 26.10% | 23.50% | 23.20% | 18.20% | 19.85% |
| **Y bwlch cyflog canolrifol o ran ethnigrwydd** | 38.90% | 35.80% | 23.60% | 26.44% | 20.10% | 20.17% |

**Y bwlch cyflog o ran anabledd – tâl fesul awr**

| | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y bwlch cyflog cymedrig o ran anabledd** | -2.87% | 1.28% | 4.17% | 5.97% | 9.82% |
| **Y bwlch cyflog canolrifol o ran anabledd** | 0.00% | 0.00% | 0.00% | 0.00% | 4.32% |

## Y Fframwaith Adrodd Gwirfoddol ar Anabledd, Iechyd Meddwl a Llesiant

Rydym yn darparu gwybodaeth ychwanegol ynghylch anabledd, iechyd meddwl a llesiant sy'n bodloni'r gofynion yn y Fframwaith Adrodd Gwirfoddol ar Anabledd, Iechyd Meddwl a Llesiant[3]:

- Mae'r ffurflen manylion personol ar iTrent (system hunanwasanaeth gweithwyr) yn gofyn i weithwyr a oes ganddynt anabledd ac, os felly, beth yw natur yr anabledd / anableddau.
- Gall gweithwyr gael mynediad at addasiadau rhesymol i’w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau’n effeithiol.
- Rydym yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd ac rydym yn gweithredu'r cynllun gwarantu cyfweliad ar gyfer ymgeiswyr anabl sy'n bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer rôl.
- Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'n rhwydweithiau cydraddoldeb yn y gweithle, Embrace a Mindful a Café Neuro, a grwpiau cymorth ar-lein i weithwyr er mwyn sicrhau cynhwysiant pellach i staff anabl ac ymgeiswyr anabl sy'n gwneud cais am swyddi gyda ni.
- Rydym yn cyhoeddi ein gwybodaeth am y bwlch cyflog anabledd ac yn monitro cyflog ar draws y nodweddion gwarchodedig drwy ddadansoddiadau cyflog cyfartal rheolaidd.

[3] Adrodd Gwirfoddol ar Anabledd, Iechyd Meddwl a Llesiant (cyhoeddi.gwasanaeth.gov.uk)

- Rydym yn monitro data recriwtio mewnol ac allanol ar gyfer ymgeiswyr anabl ac yn archwilio cyfraddau cynnydd mewn cyflogau.

## Iechyd meddwl

- Rhwng mis Ebrill 2025 a mis Mawrth 2026, gostyngodd absenoldeb iechyd meddwl fel canran o gyfanswm yr absenoldeb i 27.3%, o’i gymharu â 45.9% yn 2024-2025.
- Profodd 8.4% o staff y Comisiwn gyflwr iechyd meddwl a arweiniodd at absenoldeb oherwydd salwch rhwng mis Ebrill 2025 a mis Mawrth 2026. Yr achos mwyaf o salwch meddwl yn ôl y data sydd gennym yw 'rhesymau personol', fodd bynnag rydym yn cydnabod nad oes gennym set ddata gyflawn a byddwn yn gweithio i sicrhau bod salwch yn cael ei gofnodi'n gywir yn y dyfodol.
- Mae MINDFUL, ein rhwydwaith iechyd meddwl a llesiant meddyliol, wedi cynnig sesiynau galw heibio rhithwir ac wyneb yn wyneb wythnosol rheolaidd i staff, gyda ffocws ychwanegol ar addasu'r cymorth yn rhithwir, er mwyn parhau i annog cysylltiad a rhannu adnoddau ar gyfer gwell llesiant meddyliol a pherfformiad gwaith i'r rhai sy'n gweithio gartref.
- Rydym wedi codi ymwybyddiaeth o wahanol ddiwrnodau cynhwysiant, fel Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl ac wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl. Er enghraifft, gwahoddodd MINDFUL gydweithwyr i gymryd hoe o'u gwaith, i fwynhau gweithgareddau meddwlgarwch fel peintio dotiau mandala, a lliwio meddwlgarwch, gan gysylltu â chydweithwyr ar yr un pryd.
- Mae ein darpariaeth hyfforddiant yn cynnwys cyrsiau fel Iechyd Meddwl i Reolwyr Llinell. Rydym hefyd yn cynnwys pynciau cysylltiedig yn ein rhaglenni hyfforddiant eraill i sicrhau bod cynhwysiant yn cael ei ystyried bob amser, ym mhob ffordd.
- I gydnabod Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl, neilltuwyd sesiynau penodol o'n hwythnos Dysgu yn y Gwaith i feithrin llesiant meddyliol.

## Arolygon Staff

### Yr Arolwg Urddas a Pharch

Rydym yn cynnal arolygon urddas a pharch blynyddol i fesur gwybodaeth, hyder a phrofiadau ein staff. Mae canlyniadau allweddol ar gyfer staff y Comisiwn o'r arolwg diweddaraf yn dangos:

- Mae cyfran uchel (83%) o’n staff yn nodi eu bod yn gwybod sut i roi gwybod am ymddygiad amhriodol. Mae hyn yn debyg i'r arolwg blaenorol yn 2024.
- Byddai 80% o’r ymatebwyr yn teimlo’n gyfforddus yn rhoi gwybod am ymddygiad amhriodol o dan y broses bresennol.
- Mae 79% o’n staff yn gwybod sut i gael gafael ar ganllawiau a chyngor ynghylch y broses Mae hyn, hefyd, yn debyg i'r arolwg blaenorol yn 2024.
- Mae 73% o’r ymatebwyr yn gwybod ble i gael cymorth – mae hyn wedi cynyddu o’i gymharu â’r flwyddyn flaenorol.
- Mae mwyafrif helaeth yr ymatebwyr yn dweud nad ydynt wedi profi ymddygiad amhriodol na bod yn dyst i achosion ohono yn y gweithle dros y 12 mis diwethaf. Fodd bynnag, mae 11% o'r ymatebwyr wedi profi ymddygiad amhriodol neu wedi gweld achosion ohono. Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i greu amgylchedd sy'n rhydd rhag bwlio, aflonyddu, aflonyddu rhywiol neu ymddygiad amhriodol arall, ac nid yw’n goddef ymddygiad o'r fath.



## YMLAEN – ein cynllun interniaeth i raddedigion o leiafrifoedd ethnig

Eleni, daeth ein trydydd carfan o'n rhaglen interniaeth YMLAEN i ben. Cwblhaodd y pedwar intern eu lleoliadau yn llwyddiannus, ac rydym yn ddiolchgar am y gwerth y gwnaethont ychwanegu at eu timau, ac i'r Comisiwn yn fwy eang.

Mae'r rhaglen yn parhau i chwarae rhan bwysig yn ein hymrwymiad i adeiladu gweithlu mwy amrywiol a chynrychioliadol o fewn gwasanaethau cyhoeddus.

Yn dilyn ymarfer tendro cystadleuol, rydym yn falch o barhau â'n partneriaeth â Chymrodoriaeth Windsor, a fydd yn cyflwyno'r rhaglen ochr yn ochr â ni am bum mlynedd arall. Gyda'n gilydd, byddwn yn parhau i gefnogi unigolion talentog o gefndiroedd ethnig amrywiol drwy ddarparu cyfleoedd i ennill profiad gwerthfawr, datblygu sgiliau ac archwilio gyrfaoedd o fewn y sector cyhoeddus.

Drwy’r bartneriaeth adnewyddedig hon, a thwf parhaus rhaglen YMLAEN, ein nod yw cryfhau llwybrau hygyrch i’n sefydliad, ymestyn ein cyrhaeddiad o fewn cymunedau amrywiol, a sicrhau bod ystod eang o leisiau a safbwyntiau yn cael eu cynrychioli yn ein gwaith.

Bydd y cyfnod nesaf o interniaid yn dechrau ym mis Medi 2026 yn dilyn haf o weithgareddau recriwtio. Bydd gan y garfan sydd ar ddod gyfleoedd i gyfrannu at brosiectau ystyrlon, ymgysylltu â chydweithwyr a rhanddeiliaid, a chael cipolwg ar effaith gwasanaeth cyhoeddus, gan helpu i osod sylfeini cryf ar gyfer eu gyrfaoedd yn y dyfodol.

> *Mae fy amser yn y Senedd wedi bod yn hollol wych. Fe wnaeth y profiad ganiatáu i fi dyfu’n broffesiynol yn fy ngwybodaeth dechnegol am adeiladau a’u gwasanaethau, ond yn bwysicach fyth, yn fy hyder a’m sgiliau rhyngbersonol. Gallwn ni i gyd ddysgu cymaint o’r modd y creodd a theilwriodd y Tîm Datblygu Sefydliadol, Dysgu a Chynhwysiant y rhaglen hon, ar gyfer y garfan eleni, gan greu cydbwysedd da o sgyrsiau bugeiliol, mentora a hyfforddiant. Mae’n bendant angen mwy o gyfleoedd i raddedigion yng Nghymru i ennill profiad gwaith, yn enwedig ar gyfer rolau rheoli, ac i aelodau o'r mwyafrif byd-eang.*
> ***Shoruk, intern YMLAEN***

## Polisïau ac arferion cynhwysol

Rydym yn parhau i fod yn gyflogwr blaengar gyda pholisïau ac arferion sy'n hyrwyddo cynhwysiant. Rydym yn defnyddio asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb i ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol a sicrhau bod ein gwaith yn parhau i fod yn gynhwysol.

> *"Mae arsylwi Ramadan bob blwyddyn yn gyfnod ystyrlon o fyfyrio, disgyblaeth a chymuned, ac rydw i wedi teimlo ar bob adeg fy mod i'n cael fy nghefnogi i gydbwyso hynny â'm gwaith yng Nghomisiwn y Senedd. Mae cael sgyrsiau agored gyda fy rheolwr a'm tîm cyn y mis hwn yn helpu i osod disgwyliadau, ac mae diwylliant gweithio hyblyg y Comisiwn — gan gynnwys defnyddio amser hyblyg, oriau wedi'u haddasu, gwyliau blynyddol a, lle bo'n briodol, absenoldeb arbennig — yn ei gwneud hi'n llawer haws rheoli ymprydio wrth barhau i gyflawni fy nghyfrifoldebau.*
>
> *Yr un mor bwysig yw'r diwylliant ehangach o gynhwysiant a dealltwriaeth ar draws y sefydliad. Mae cydweithwyr yn gyson barchus, yn ymgysylltiedig ac yn barod i ddysgu, gan greu amgylchedd cynhwysol. Mae'r ymdeimlad hwnnw o gefnogaeth yn gwneud Ramadan nid yn unig yn rhywbeth y gellir ei reoli, ond yn rhywbeth ystyrlon yn y gweithle."*

### Newidiadau bach, gwahaniaeth mawr

Er mwyn hyrwyddo cynhwysiant, rydym wedi diweddaru'r templedi llofnod e-bost ar gyfer ein staff fel eu bod bellach yn gallu defnyddio logo siaradwr Cymraeg, logo dysgwr Cymraeg a/neu flodyn yr haul ar gyfer anableddau cudd, fel rhan o'u llofnod e-bost. Yn ogystal, gall staff ychwanegu sillafu ffonetig at eu llofnod i gyd-fynd â'u henwau i helpu cydweithwyr a defnyddwyr gwasanaeth i ddeall ynganiad cywir eu henw.

Mae blodyn yr haul ar gyfer anableddau cudd yn logo cyffredinol a ddefnyddir fel ffordd ddiffwdan i bobl rannu'n wirfoddol fod ganddyn nhw anabledd neu gyflwr nad yw, o bosibl, yn amlwg ar unwaith, ac y gallai fod angen help llaw, cefnogaeth, dealltwriaeth neu fwy o amser arnyn nhw.

## Addasiadau rhesymol

Rydym wedi gwella ein dull sefydliadol o wneud addasiadau rhesymol, gan sicrhau bod cydweithwyr anabl, a'r rheini sydd â chyflyrau iechyd hirdymor ac anghenion niwroamrywiol, yn derbyn cymorth ymarferol, amserol sy'n canolbwyntio ar y person. Cafodd y gwaith hwn ei lunio trwy gydweithio traws-dimau a'i lywio gan brofiad mewnol ac arfer gorau allanol. Rydym wedi rhannu gwybodaeth am y cymorth TGCh sydd ar gael, ac wedi datblygu cyllideb ganolog i gyflymu'r ffordd y caiff ceisiadau eu prosesu.

## Achrediadau

Rydym unwaith eto wedi cael ein cydnabod fel un o'r 10 cyflogwr gorau yn y DU i deuluoedd sy'n gweithio, gan ddathlu sefydliadau sy'n gwneud y mwyaf i gefnogi anghenion cydbwysedd bywyd a gwaith eu holl weithwyr.

## Cynllun Hyderus o ran Anabledd

Roedd ein Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant 2022-2026 yn cynnwys amcan i ddod yn sefydliad sy’n Arweinydd Hyderus o ran Anabledd. O ganlyniad i newid yn y ffordd rydym yn recriwtio, rydym yn cydnabod na fyddem yn gallu cyflawni'r statws hwnnw. Rydym, felly, yn ymrwymo i fod yn gyflogwr Hyderus o ran Anabledd ac i weithredu yn ôl arfer gorau lle gallwn, drwy hyrwyddo cynhwysiant anabledd, darparu addasiadau rhesymol, sicrhau bod ymgeiswyr sy'n bodloni'r meini prawf gofynnol yn cael cyfweliadau, a gwneud yn siŵr bod ein proses recriwtio yn gynhwysol.

## Ein hymrwymiad i gymuned y lluoedd arfog

Mae Comisiwn y Senedd yn falch o gefnogi Cyfamod y Lluoedd Arfog – addewid y bydd y rheini sy'n gwasanaethu, neu sydd wedi gwasanaethu, a'u teuluoedd, yn cael eu trin yn deg ac â pharch. Rydym yn cydnabod y gallai aelodau o gymuned y lluoedd arfog wynebu heriau unigryw o ganlyniad i’w gwasanaeth.

Mae'n bleser gennyn lansio ein tudalennau newydd ar y fewnrwyd sy'n ymwneud yn benodol â’r Cyfamod a'r gefnogaeth sydd ar gael i aelodau o gymuned y lluoedd arfog.

Mae Comisiwn y Senedd wedi llofnodi **Cyfamod y Lluoedd Arfog** – yr addewid swyddogol sy’n sicrhau bod y rheini sy’n gwasanaethu, neu sydd wedi gwasanaethu, yn y Lluoedd Arfog yn cael eu trin yn deg.

Mae pob un o Gomisiynwyr y Senedd wedi llofnodi'r addewid sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad cryf i lesiant aelodau'r lluoedd arfog.

Yn ein haddewid, rydym yn ymrwymo i hyrwyddo’r ffaith ein bod yn sefydliad sy’n gyfeillgar i’r Lluoedd Arfog ac sy’n cefnogi staff sy’n aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog, yn hyrwyddo Wythnos y Lluoedd Arfog drwy ein gwefan a’n deunydd recriwtio, ac yn cyfeirio at y cymorth sydd ar gael.

Dywedodd Joyce Watson AS, Comisiynydd y Senedd sydd â chyfrifoldeb am gydraddoldeb:

> *"Dwi'n falch ein bod wedi sicrhau cefnogaeth unfrydol i lofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog. A minnau'n dod o deulu Lluoedd Arfog, mae'r achos hwn yn agos iawn at fy nghalon. Mae'r Comisiwn eisoes yn gwneud darpariaethau fel trefniadau absenoldeb arbennig a chyngor a chymorth ynghylch llesiant i filwyr wrth gefn a chyn-filwyr presennol, felly roedd llofnodi'r Cyfamod yn gam nesaf naturiol. Mae'r Cyfamod yn adlewyrchu ein hymrwymiad hirsefydlog i gefnogi aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog yn ogystal â'n penderfyniad i sicrhau bod Comisiwn y Senedd yn weithle cynhwysol a chefnogol i bawb."*



Dyma beth oedd gan rai o'n staff i'w ddweud am yr ymrwymiad:

> *"Rwy'n falch iawn bod Comisiwn y Senedd wedi llofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog. Mae'r ymrwymiad hwn yn cyd-fynd â gwerthoedd craidd cyn-filwyr, gan sicrhau eu bod yn cael y cyfleoedd a'r gydnabyddiaeth maen nhw'n eu haeddu. Drwy hyrwyddo amgylchedd cyfeillgar i'r lluoedd arfog, rydyn ni'n anrhydeddu gwasanaeth cyn-filwyr a milwyr wrth gefn."*
> ***Paul, Cyn-aelod o'r RAF***

*“Rydyn ni’n edrych ar ein Lluoedd Arfog i ymgymryd â dyletswyddau anodd a rhoi eu hunain mewn perygl i gadw’r genedl yn ddiogel. Dwi’n falch iawn bod y Comisiwn, drwy lofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog, yn cydnabod y ddyled sydd arnon ni i’r rhai sy’n gwasanaethu ar hyn o bryd, i’r cyn-filwyr ac i’w holl deuluoedd sy’n eu cefnogi nhw.”*

***Huw, llysgennad gwirfoddol dros brosiect tai i gyn-filwyr***

*“Mae fy mhartner i wedi bod yn Filwr Wrth Gefn yn y Fyddin am y 4 blynedd diwethaf, ac yn ystod y cyfnod hwn dwi wedi datblygu dealltwriaeth ddyfnach o waith ein lluoedd arfog o ddydd i ddydd, ac yn benodol, y cyfraniad enfawr mae milwyr wrth gefn yn ei wneud. Mae ymrwymiad Milwyr Wrth Gefn yn anhygoel – hyfforddiant, ymarferion parodrwydd, datblygiad personol a phroffesiynol, dysgu sgiliau newydd, treulio amser i ffwrdd o’u teuluoedd – i gyd ar sail ymarferol wirfoddol, i gefnogi’r Fyddin reolaidd. Mae’n bwysig bod yr ymrwymiad hwn yn cael ei gefnogi a’i gydnabod, a dwi’n falch iawn bod Comisiwn y Senedd wedi llofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog i ddangos ei gefnogaeth.”*

***Chloe, partner i Filwr Wrth Gefn***

*“Mae “Ich Dien”, sy’n golygu “dwi’n gwasanaethu”, yn swnio’n debyg i “eich dyn”. Mae’r defnydd o’r gwir ystyr yn weddol ddirgel, ond mae unrhyw filwr neu gyn-filwr sydd wedi darllen y llw teyrngarwch yn deall pa mor ddifrifol yw gwasanaethu ein gwlad ar draws pob cenhedlaeth.*

*“Mae Comisiwn y Senedd, sy’n llofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog, yn dangos ymrwymiad i wasanaethu’r rheini sydd wedi gwasanaethu ein gwlad ac a all barhau i wneud hynny yn y dyfodol. Mae hyn yn dangos bod y Comisiwn yn barod i gynnig i weithwyr presennol a gweithwyr y dyfodol y cymorth sydd ei angen i ffynnu a byw mewn amgylchedd sifil.*

*“Fel mae llawer o gyn-aelodau’r lluoedd arfog yn gwybod, rhaid haeddu teyrngarwch, nid ei ddisgwyl. Ond mae hyn yn gwneud imi edrych ar fy hen fathodyn cap, tair pluen estrys gwyn wedi’u hamgylchynu gan goronig aur, a dweud ‘Ich Dien’ gyda’r un hen ymdeimlad o deyrngarwch a balchder oedd gen i pan wisgais fy meret gyntaf wrth ddod yn filwr.”*

***Chris – Cyn-aelod o’r Fyddin***


Parkinson's UK
GOOD VIBRATIONS CHORUS
ROYAL WELSH COLLEGE OF MUSIC & DRAMA
COLEG BRENHINOL CERDD A DRAMA CYMRU

# Senedd Hygyrch, Gynhwysol a Byd-eang



# Senedd hygyrch a chynhwysol

## Senedd sy’n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd

Eleni, cynhaliodd Comisiwn y Senedd adolygiad o rywedd a chynhwysiant yn ein senedd. Roedd yr archwiliad yn pwyso a mesur sut mae ein diwylliant, ein ffyrdd o weithio, a'n cyfleusterau yn cynrychioli ac yn gwasanaethu pawb. Cafodd ei gyflawni ar ôl argymhelliad gan y Pwyllgor Biliau Diwygio.

Cynhaliwyd yr **Adolygiad Senedd sy’n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd** (“yr Adolygiad”) mewn ymateb i argymhelliad gan y Pwyllgor Biliau Diwygio, yn ystod ei waith craffu ar Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol). Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio tystiolaeth a gwaith dadansoddi o adolygiad o ddiwylliant, rheolau a ffyrdd o weithio yn y Senedd a gynhaliwyd yn ystod yr hydref 2025.

Sefydlodd Comisiwn y Senedd fwrdd trawsbleidiol o Aelodau, dan gadeiryddiaeth Joyce Watson AS, i oruchwylio'r adolygiad. Fe wnaeth tîm o Brifysgol Caerdydd gasglu, dadansoddi a chyflwyno llawer iawn o dystiolaeth yn ymwneud â'r materion hyn, gan gynnwys barn a phrofiadau Aelodau presennol a chyn-Aelodau o’r Senedd. Fe wnaeth yr Adolygiad elwa’n fawr o'r cyfoeth hwn o brofiad uniongyrchol.

Daeth yr Adolygiad i’r casgliad bod y Senedd yn cymharu'n dda o ran ei hymrwymiad i arferion gwaith cynhwysol, o absenoldeb rhiant a lwfansau gofalu, gweithio hybrid a phleidleisio drwy ddirprwy i ymgysylltu â'r cyhoedd. Gwelodd hefyd lefelau uchel o gynrychiolaeth a chyfranogiad gan fenywod, ond nododd fod modd gwneud mwy i ymgorffori cydraddoldeb mewn arweinyddiaeth, cynrychiolaeth a chraffu.

Mae’r **adroddiad** hwn yn gwneud argymhellion mewn sawl maes. Er enghraifft, dylai prif ffrydio ystyriaethau cydraddoldeb fod yn flaenoriaeth wrth graffu ar bolisïau, cyllidebau a deddfu.

Nod yr argymhellion yw sicrhau ffyrdd sefydliadol o weithio sy’n hyrwyddo ac yn datblygu cydraddoldeb, yn hytrach na’i bod yn dibynnu ar arferion disgresiynol a hyrwyddwyr unigol i arwain newid.

Man cychwyn yw'r Adolygiad hwn. Argymhellodd y Bwrdd sefydlu bwrdd gweithredu i gyflawni'r argymhellion, a bydd Comisiwn nesaf y Senedd yn ymateb i argymhellion yr Adolygiad.

# Ymgyrch Etholiad 2026

## Etholiad y Senedd 2026: Ymgyrch Mae'r Grym Yn Eich Dwylo

Nod ymgyrch etholiad y Senedd 2026 oedd codi ymwybyddiaeth o'r newidiadau i'r Senedd, cynyddu dealltwriaeth o rôl y Senedd a chynyddu'r bwriad i bleidleisio - yn enwedig ymhlith pobl ifanc a'r rhai mewn ardaloedd economaidd-gymdeithasol is.

Mae ein dull yn defnyddio gwyddorau ymddygiad i feithrin ymgysylltiad, a'r nod yw:

- Cryfhau dyletswydd ddinesig ("Mae Cymru'n pleidleisio, gwna wahaniaeth").
- Cynyddu'r buddsoddiad mewn canlyniadau trwy ddefnyddio enghreifftiau lleol, perthnasol.
- Lleihau ymdrech a chymhlethdod trwy greu cynnwys syml, amlieithog, aml-fformat.
- Defnyddio cenhadon dibynadwy (partneriaid cymunedol, llysgenhadon ieuenctid, y wasg leol).

### Ymgysylltu â'r gymuned

Cyflwynodd ein tîm Profiad Ymwelwyr weithdai *Deall Eich Pleidlais* ar y safle ac ar-lein, gan gynllunio sesiynau pwrpasol ar gyfer grwpiau ag anghenion penodol. Roedd hyn yn cynnwys cydweithio ag Anabledd Cymru i ddatblygu cyflwyniad hygyrch, a gyflwynwyd yn fyw gyda chymorth palanteipydd a dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain.

Fe wnaethom ni hefyd gryfhau perthnasoedd â chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol trwy allgymorth ar lawr gwlad. Drwy gwrdd â grwpiau o Wcrainiaid a Hong Kongiaid Caerdydd yn eu cymunedau, roedden ni'n gallu cael gwared ar rwystrau a chefnogi cyfranogiad hyderus. Gweithiodd y tîm Profiad Ymwelwyr gyda chyfieithwyr lleol i gyflwyno sesiynau mewn lleoliadau cymunedol yn ogystal ag yma yn y Senedd.

> "Fe wnaeth y cyflwyniad weithio'n dda iawn — roedd y gynulleidfa wedi ymgysylltu ac wedi dysgu llawer iawn. Diolch i chi am alluogi cynnwys y cyfieithiad Cantoneg yn y cyflwyniad; fe helpodd nifer o'r cyfranwyr i ddeall y cynnwys yn well. Ry'n ni'n edrych ymlaen at y digwyddiad nesaf gyda'r gymuned Tsieineaidd." Hong Kongwyr Caerdydd



*Hannah Tanhai, Swyddog Profiad Ymwelwyr, gyda phobl Hong Kong Caerdydd, Chwefror 2026*

### Presenoldeb ar-lein

Mae ein gwefan etholiad yn rhoi gwybodaeth hanfodol, hawdd ei chanfod trwy flogiau a Chwestiynau Cyffredin. Mae'r hyn rydym yn ei weld drwy'r cyfryngau cymdeithasol a thrwy ymgysylltu â'r gymuned yn sicrhau bod y cynnwys yn hygyrch ac yn adlewyrchu'r cwestiynau go iawn yr oedd pobl yn eu gofyn.

### Cynnwys fideo

Gwnaethom gomisiynu cyfres o fideos Iaith Arwyddion Prydain sy'n rhoi gwybodaeth allweddol i ddefnyddwyr am yr etholiad ac maent ar gael ar ein sianel YouTube a'n gwefan etholiad.

Rydym hefyd wedi rhyddhau pum fideo esboniadol wedi'u hanimeiddio newydd ar ein sianel YouTube, wedi'u cynllunio i gyflwyno'r Senedd, yr etholiad, a sut mae pleidleisio'n gweithio yng Nghymru yn glir ac yn weledol.

**Darparu gwybodaeth hygyrch**

Er mwyn sicrhau y gall pawb gael mynediad at wybodaeth am etholiadau, rydym wedi datblygu adnoddau dwyieithog ar yr etholiad mewn Braille, gan gynnwys map Braille o etholaethau newydd y Senedd. Mae'r rhain wedi cael eu defnyddio mewn ysgolion a llyfrgelloedd yn ogystal â gyda grwpiau sy'n ymweld.

Rydym hefyd wedi creu adnoddau mewn fformat dwyieithog hawdd ei ddarllen, sydd wedi cael eu defnyddio gan y tîm Digwyddiadau ac sydd ar gael ar-lein drwy'r wefan etholiad.

Er mwyn helpu i ymgysylltu â chynulleidfaoedd ehangach rydym wedi creu adnoddau gwybodaeth mewn naw iaith ychwanegol: Arabeg, Bengaleg, Farsi, Mandarin, Cantoneg, Pwyleg, Somalieg, Cwrdeg Sorani ac Wrdw.

> *“Roedd hi’n syndod braf gweld taflen yn Arabeg, diolch yn fawr iawn.  Ro’n i eisiau rhoi gwybod fy mod i am ei rhannu gyda fy ngrŵp cymunedol, fe fyddan nhw'n hapus iawn. Ry’n ni’n edrych ymlaen at ymweld â'r Senedd”.*
>
> ***Prosiect Grymuso Llawr Gwlad (GREP)***



*Sesiwn Ymgysylltu Cymunedol GREP*

## Cefnogi'r cyfryngau

Rydym wedi cynnal nifer o sesiynau briffio ar gyfer canolfannau cyfryngau cenedlaethol a newydd, gan gynnwys podlediadau, i gynorthwyo ag adrodd cywir a hygyrch. Er mwyn helpu i gefnogi canolfannau nad oeddent drwy gyfrwng y Gymraeg, gwnaethom weithio gyda'n gwasanaeth cyfieithu i greu fideo yn dangos sut i ynganu'r 16 enw etholaeth newydd yn gywir.

## Bwrwpleidlais.cymru

Fel rhan o waith y Senedd i godi ymwybyddiaeth o etholiadau 2026, a'r newidiadau i'r system o ethol Aelodau, mae ein Tîm Addysg ac Ymgysylltu Ieuenctid wedi partneru â Chomisiynydd Plant Cymru, a'r Comisiwn Etholiadol i greu adnoddau newydd ar y cyd i helpu pobl ifanc i ddysgu am y Senedd a sut i bleidleisio. Cyflwynodd y tîm sesiynau *Sgwrsio am y Senedd* i helpu athrawon i ddeall sut i wneud y gorau o'r adnoddau.

Mae'r adnoddau'n cwmpasu pynciau allweddol gan gynnwys:

1. Hawliau plant a phwysigrwydd pleidleisio.
2. Rôl a hanes y Senedd a sut mae'n newid yn 2026.
3. Sut i gofrestru a phleidleisio mewn etholiad Senedd.

## Gwasanaeth Cyfnewid Iaith Arwyddion Prydain gan InterpretersLive!

Gall aelodau'r cyhoedd sy'n arwyddwyr Iaith Arwyddion Prydain ein ffonio nawr gan ddefnyddio'r gwasanaeth cyfnewid Iaith Arwyddion Prydain gan InterpretersLive!  Mae gwasanaeth ar gael ar alw yn ystod oriau agor arferol ein Canolfan Gyswllt.

Mae'r gwasanaeth hwn yn galluogi arwyddwyr Iaith Arwyddion Prydain i gysylltu â ni gan ddefnyddio dehonglydd fideo Iaith Arwyddion Prydain yn ystod oriau gweithredu arferol, gan sicrhau mynediad cyfartal at wybodaeth a chymorth. Cefnogir y gwasanaeth gan ganllawiau defnyddwyr a chyswllt uniongyrchol, gan ei gwneud hi'n syml ac yn haws i'r cyhoedd ymgysylltu â'r Senedd.

Cafodd y gwasanaeth hwn ei ategu ymhellach gan dreial dehongli fideo ar y safle yn Nerbynfa'r Senedd - gan ddarparu cymorth cyfathrebu ar unwaith i ymwelwyr sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, yn ogystal â'r opsiwn o drefnu dehonglwyr wyneb yn wyneb ar gyfer sesiynau tystiolaeth y Pwyllgor ac ymweliadau wedi'u cynllunio ymlaen llaw.

Bydd galwadau a wneir drwy'r gwasanaeth hwn yn cael eu hateb gan ein Canolfan Gyswllt Cwsmeriaid (0300 200 6500) yn y ffordd arferol a bydd y tîm hwn yn ateb cwestiynau, yn cymryd neges neu'n anfon galwadau ymlaen i'r tîm perthnasol.

Gall arwyddwr Iaith Arwyddion Prydain sydd am gysylltu â'r Senedd gan ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain ddilyn y linc o'r **dudalen gyswllt ar ein gwefan**, dilyn y linc Senedd yn yr Ap InterpretersLive! neu ddefnyddio'r linc isod.

**https://connect.interpreterslive.co.uk/vrs?ilc=SeneddCymru**




InterpretersLive!

# Cymorth i Aelodau - Pwyllgorau, Ymchwil a Busnes y Senedd

## Ymgysylltu â Dinasyddion

Mae'r Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion yn cefnogi Pwyllgorau'r Senedd drwy gynllunio a chyflwyno rhaglenni ymgysylltu sy'n cyflwyno safbwyntiau amrywiol i'r broses o lunio polisïau. Mae'r tîm yn gyfrifol am ddeall agweddau, ymddygiad a phrofiadau pobl ledled Cymru ar ran y Pwyllgorau.

Isod mae rhai enghreifftiau o'n gwaith ymgysylltu â phwyllgorau sy'n dangos sut rydym yn ymdrechu i wneud gwaith pwyllgorau'r Senedd yn hygyrch i bawb.

### Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru)

Torrodd y Senedd dir newydd yn ei darpariaeth Iaith Arwyddion Prydain fel rhan o waith i helpu i ddatblygu ac yna craffu ar gynigion deddfwriaethol gan yr Aelod dros Ogledd Cymru, Mark Isherwood AS. Ar ôl sicrhau cefnogaeth drawsbleidiol, byddai'r gyfraith arfaethedig yn gweld dyletswyddau newydd yn cael eu cyflwyno ar gyrff cyhoeddus i hyrwyddo a hwyluso Iaith Arwyddion Prydain yng Nghymru. Er mwyn sicrhau bod prosesau a thrafodion y Senedd yn gynhwysol ac ar gael yn newis iaith arwyddwyr Iaith Arwyddion Prydain, gofynnodd y Senedd am gymorth arwyddwyr Iaith Arwyddion Prydain byddar a sefydliadau'r trydydd sector i roi cyngor ac arweiniad.

Ar ôl cyflwyno'r Bil, cafodd ei gyfeirio at y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol er mwyn craffu arno. Ar ôl ystyried anghenion a barn arwyddwyr Iaith Arwyddion Prydain ochr yn ochr ag ystyriaethau eraill fel ymarferoldeb, adnoddau ac effaith, cytunodd y Pwyllgor ar ddull uchelgeisiol a chynhwysol a oedd â'r nod o adlewyrchu ysbryd y Bil. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau bod yr holl drafodion ar y Bil yn y Pwyllgor a'r Cyfarfod Llawn ar gael yn fyw gyda dehongliad Iaith Arwyddion Prydain i unrhyw un yn yr oriel neu'n gwylio ar Senedd.TV.

Cafodd canllawiau generig i'r broses ddeddfwriaethol a fideos esbonio eu trosi i Iaith Arwyddion Prydain hefyd. Cafodd y rhain eu hategu gan fideos diweddaru byr yn ystod camau allweddol o broses y Bil ac ar ôl pob penderfyniad pwysig.

Cyflawnodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion ddau gam o ymgysylltu ag arwyddwyr Iaith Arwyddion Prydain i sicrhau bod y gwaith o ddatblygu a chraffu ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) wedi'i lywio gan brofiadau'r gymuned Fyddar.

Cynhaliwyd y rhaglen ymgysylltu gyntaf wrth ddatblygu'r Bil ac roedd yn cynnwys 77 o gyfranogwyr, gan gynnwys arwyddwyr Iaith Arwyddion Prydain Byddar, aelodau o'r teulu a chefnogwyr. Casglodd y gwaith hwn brofiadau byw a safbwyntiau i lywio gwaith drafftio'r ddeddfwriaeth arfaethedig. Yn dilyn y gwaith ymgysylltu, rhannwyd y canfyddiadau gyda chyfranogwyr a'r gymuned Fyddar ehangach trwy dudalen we bwrpasol ar gyfer canfyddiadau ymgysylltu a gyflwynwyd yn Iaith Arwyddion Prydain, gan ganiatáu i bobl gael mynediad at yr adroddiad llawn yn eu hiaith gyntaf a gweld sut roedd eu cyfraniadau wedi llunio'r ddeddfwriaeth arfaethedig.

Wrth i'r Bil symud ymlaen i broses ddeddfwriaethol y Senedd, cyflwynodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion ail raglen ymgysylltu ag arwyddwyr Iaith Arwyddion Prydain a'u teuluoedd i helpu gyda gwaith craffu'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar y ddeddfwriaeth. Sicrhaodd hyn fod pobl Fyddar a defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain yn gallu parhau i gyfrannu eu safbwyntiau yn ystod ystyriaeth y Pwyllgor o'r Bil.

Roedd yr ail raglen ymgysylltu yn cynnwys 54 o gyfranwyr ar draws chwe grŵp ffocws, gyda chyfranogwyr yn dod o bob un o bum rhanbarth y Senedd. Yn hytrach na chanolbwyntio ar brofiadau bywyd pobl, roedd y gwaith ymgysylltu yn gofyn am sylwadau ynghylch a yw'r Bil, fel y cafodd ei ddrafftio, yn addas at y diben.

Cynhaliwyd y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y Bil ar 11 Mawrth 2026, gyda nifer o gyfranogwyr yn bresennol yn y Senedd yn bersonol i wylio'r trafodion. Roedd eu presenoldeb yn adlewyrchu ymgysylltiad cryf y gymuned Fyddar drwy gydol y broses ac yn dangos sut y gall ymgysylltiad cynhwysol gefnogi diddordeb a chyfranogiad parhaus y cyhoedd wrth i ddeddfwriaeth fynd drwy'r Senedd.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Rhaglen Ymgysylltu Cynhwysol

Bu'r Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion yn cefnogi gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 drwy raglen ymgysylltu a gynlluniwyd i sicrhau bod yr ymchwiliad yn cael ei glywed gan bobl y mae eu safbwyntiau'n aml yn cael eu tangynrychioli wrth lunio polisïau. Canolbwyntiodd y rhaglen ar a yw cymunedau ledled Cymru yn teimlo bod y Ddeddf wedi cyflawni ei huchelgeisiau ers iddi ddod i rym.

Defnyddiwyd dull recriwtio cynhwysol wedi'i dargedu i gynnwys ystod amrywiol o gyfranogwyr. Roedd y gwaith ymgysylltu yn blaenoriaethu grwpiau sy'n llai tebygol o gyfrannu at brosesau polisi ffurfiol, gan gynnwys pobl ifanc, pobl anabl, unigolion sy'n profi bregusrwydd neu anfantais gymdeithasol, a phobl hŷn. Cynhaliwyd sesiynau ar draws cymunedau trefol, cymoedd, gwledig ac arfordirol, ochr yn ochr â chyfraniadau gan sefydliadau Cymru gyfan, gan helpu i gasglu safbwyntiau o wahanol gyd-destunau daearyddol a chymdeithasol ledled y wlad.

Cynlluniwyd y gwaith ymgysylltu i leihau rhwystrau i gyfranogiad. Cyflwynwyd gweithgareddau wyneb yn wyneb, ar-lein a thros y ffôn, ac roedd croeso i gyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Defnyddiwyd dulliau creadigol hefyd i wneud y broses yn hygyrch i bobl nad ydynt efallai am ymgysylltu drwy fformatau ymgynghori traddodiadol. Er enghraifft, roedd *Baneri ar gyfer y Dyfodol* yn gwahodd pobl ifanc i dynnu llun neu ysgrifennu eu gobeithion ar gyfer Cymru, tra bod *Cardiau Post o'r Dyfodol* yn annog ymwelwyr â'r Senedd i ddisgrifio sut olwg fyddai ar Gymru yn 2030 a thu hwnt mewn cysylltiad â saith nod llesiant y Ddeddf. Cynigiwyd cyfweliadau unigol lle'r oedd yn well gan gyfranogwyr rannu barn yn breifat.

Cyfrannodd cyfanswm o 324 o bobl at y rhaglen ymgysylltu, gan gynnwys cyfranogwyr mewn 21 o sesiynau ymgysylltu wedi'u targedu ac ymwelwyr a gymerodd ran mewn gweithgareddau creadigol yn y Senedd. Roedd dros hanner y cyfranogwyr yn dod o grwpiau sy'n aml yn cael eu heithrio o brosesau gwneud penderfyniadau, gan sicrhau bod ystod eang ac amrywiol yn llywio gwaith craffu'r Pwyllgor ar brofiadau bywyd cymunedau ledled Cymru.

### Gwaith ymgysylltu'r Pwyllgor Cyllid ar y Gyllideb: Y Chweched Senedd

Yn ystod y Chweched Senedd, cynorthwyodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Pwyllgor Cyllid i gyflwyno rhaglen flynyddol o ymgysylltu â'r cyhoedd i lywio'r gwaith o graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru. Cynlluniwyd y rhaglen i sicrhau y gallai pobl o gymunedau amrywiol ledled Cymru gyfrannu'n uniongyrchol at drafodaethau am flaenoriaethau gwariant cyhoeddus.

Roedd y gweithgareddau ymgysylltu yn cynnwys grwpiau ffocws a chyfweliadau â chyfranogwyr a gafodd eu recriwtio drwy alwadau agored a phartneriaethau â sefydliadau cymunedol. Helpodd hyn i sicrhau cyfranogiad gan grwpiau sydd yn aml yn cael eu tangynrychioli wrth lunio polisïau, gan gynnwys pobl ifanc, pobl hŷn a phobl anabl, ochr yn ochr ag unigolion sydd â

phrofiad byw o feysydd polisi fel addysg, iechyd, amaethyddiaeth a'r sector gwirfoddol.

Dros gyfnod o bum mlynedd y Senedd, cyfrannodd 337 o bobl drwy 62 o grwpiau ffocws a chyfweliadau, gyda chyfranogwyr yn dod o gymunedau ledled Cymru. Cafodd y sesiynau eu strwythuro o amgylch themâu allweddol o fewn cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, gan alluogi cyfranogwyr i rannu sut mae penderfyniadau gwariant yn effeithio ar eu bywydau a'u cymunedau. Yn y rhaglen ddiweddaraf, bu’r tîm hefyd yn gweithio gydag Anabledd Dysgu Cymru i hwyluso grŵp ffocws ar-lein pwrpasol gyda phobl ifanc ag anableddau dysgu. Datblygwyd deunyddiau hawdd eu darllen i helpu pobl i gymryd rhan.

Mae gwaith y Pwyllgor yn ystod y Chweched Senedd wedi helpu i sefydlu model nodedig o ymgysylltu â dinasyddion wrth graffu ar y gyllideb. Ychydig o ddeddfwrfeydd sydd wedi ymgorffori cyfranogiad uniongyrchol y cyhoedd wrth graffu ar gyllidebau'r llywodraeth, yn enwedig o ystyried yr amserlenni seneddol tynn sy'n aml yn cyfyngu ar gyfleoedd i ymgysylltu'n ystyrlon. Mae rhaglen grwpiau ffocws blynyddol y Senedd wedi dod yn un o'r enghreifftiau mwy cynhwysfawr o sut y gellir ymgorffori profiad byw a safbwyntiau cymunedol mewn craffu seneddol ar wariant cyhoeddus.

### Gwella Mynediad at Gymorth i Ofalwyr Di-dâl: Cyfweliadau a grwpiau ffocws

Bu’r Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion yn cefnogi ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i wella mynediad at gymorth i ofalwyr di-dâl drwy raglen ymgysylltu a oedd yn canolbwyntio ar brofiadau bywyd gofalwyr ledled Cymru. Nod y dull oedd sicrhau bod yr ymchwiliad yn adlewyrchu safbwyntiau pobl y gall eu cyfrifoldebau gofalu ei gwneud hi'n anodd cymryd rhan mewn trafodaethau polisi.

Er mwyn lleihau rhwystrau i gyfranogiad, gwnaeth y rhaglen gynnig opsiynau ymgysylltu hyblyg, gan gynnwys sesiynau ar-lein, dros y ffôn ac wyneb yn wyneb mewn lleoliadau cyfleus. Roedd hyn yn caniatáu i ofalwyr gyfrannu mewn ffyrdd a oedd yn cyd-fynd â chyfrifoldebau gofalu heriol ac yn dibynnu a oeddent ar gael.

Cafodd cyfranogwyr eu recriwtio drwy sefydliadau ac elusennau sy'n cefnogi gofalwyr di-dâl, gan ddefnyddio proses mynegi diddordeb a gynlluniwyd i sicrhau bod ystod amrywiol o amgylchiadau a chefndiroedd gofalu yn cael eu cynrychioli. Roedd y rhaglen yn cynnwys gofalwyr sy’n cefnogi partneriaid, plant

anabl, plant sy'n oedolion a pherthnasau hŷn, yn ogystal ag unigolion sy'n darparu lefelau uchel iawn o ofal a'r rhai sy'n rhannu cyfrifoldebau gofalu. Daeth y cyfranogwyr hefyd o wahanol ranbarthau o Gymru, gan sicrhau bod yr ymgysylltiad yn adlewyrchu ystod o gyd-destunau daearyddol.

Drwy gyfweliadau a grwpiau ffocws, disgrifiodd gofalwyr y rhwystrau y maent yn eu hwynebu wrth gael mynediad at gymorth a'r pwysau o gydbwyso cyfrifoldebau gofalu â'u lles eu hunain. Tynnodd eu cyfraniadau sylw at sut y gall ffactorau fel daearyddiaeth, dwyster gofal ac amgylchiadau personol ddylanwadu ar fynediad at wasanaethau. Sicrhaodd hyn fod gwaith craffu'r Pwyllgor wedi'i lywio gan brofiadau grŵp eang ac amrywiol o ofalwyr di-dâl.

### Cymorth Tai i Bobl sy'n Agored i Niwed: Grwpiau ffocws a chyfweliadau

Bu'r Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion yn cefnogi ymchwiliad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i gymorth tai i bobl agored i niwed drwy raglen ymgysylltu a gynlluniwyd i gasglu safbwyntiau unigolion sydd â phrofiad byw o ansicrwydd tai a'r rhai sy'n eu cefnogi.

Defnyddiwyd dull ansoddol i greu mannau diogel a chefnogol ar gyfer cyfranogiad, gan gynnwys grwpiau ffocws a chyfweliadau un-i-un. Roedd y fformat hwn yn galluogi cyfranogwyr i rannu profiadau personol mewn ffyrdd a oedd yn teimlo'n gyfforddus ac yn briodol iddynt. Roedd y rhaglen yn cynnwys cyfanswm o saith grŵp ffocws, pedwar cyfweliad unigol a chyfraniad ysgrifenedig dilynol, gyda 118 o gyfranogwyr yn cyfrannu o bob un o bum rhanbarth y Senedd.

Cafodd cyfranogwyr eu recriwtio drwy sefydliadau sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phobl sy'n cael mynediad at gymorth tai, gan helpu i sicrhau bod yr ymgysylltiad yn cyrraedd unigolion sydd yn aml yn cael eu tangynrychioli mewn trafodaethau polisi. Roedd y rhaglen yn cynnwys pobl sy'n wynebu amrywiaeth o bethau sy'n eu gwneud yn agored i niwed, gan gynnwys pobl ifanc, teuluoedd sy'n gweithio ac sy'n profi pwysau tai, pobl sy'n gadael y carchar, a ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Cafodd gweithwyr rheng flaen eu cynnwys hefyd i roi cipolwg ar sut mae gwasanaethau'n gweithredu'n ymarferol a'r heriau o gefnogi pobl ag anghenion cymhleth.

Drwy'r trafodaethau hyn, tynnodd y cyfranogwyr sylw at rwystrau i gael mynediad at gymorth tai, gan gynnwys addasrwydd ac argaeledd llety a chymhlethdod cynyddol amgylchiadau pobl. Sicrhaodd eu cyfraniadau fod gwaith craffu'r Pwyllgor wedi'i lywio gan brofiadau grwpiau amrywiol sy'n

dibynnu ar wasanaethau cymorth tai, yn ogystal â safbwyntiau'r rhai sy'n eu darparu.

### Llwybrau at Addysg a Hyfforddiant ôl-16

Bu'r Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion yn cefnogi ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i lwybrau i addysg a hyfforddiant ôl-16 drwy raglen ymgysylltu a gynlluniwyd i gofnodi profiadau pobl ifanc sy'n llywio llwybrau addysg a gyrfa. Roedd y rhaglen yn archwilio pa mor effeithiol y mae dysgwyr yn derbyn gwybodaeth ac arweiniad am yr ystod lawn o opsiynau ôl-16, gan gynnwys llwybrau academaidd a galwedigaethol.

Er mwyn cyrraedd grŵp eang ac amrywiol o gyfranogwyr, cynhaliodd y tîm arolygon ar-lein ar gyfer pobl ifanc 16–20 oed ac ar gyfer rhieni neu warcheidwaid, a daeth cyfanswm o 451 o ymatebion i law (311 gan bobl ifanc a 140 gan rieni neu warcheidwaid). Cafodd fersiwn hawdd ei darllen o arolwg y bobl ifanc ei greu hefyd i helpu unigolion sydd ag anghenion cyfathrebu gwahanol i gymryd rhan ac i wella hygyrchedd.

Cynhaliwyd gwaith ymgysylltu wedi'i dargedu i sicrhau bod yr ymchwiliad yn adlewyrchu safbwyntiau pobl ifanc a allai wynebu rhwystrau ychwanegol mewn addysg. Roedd hyn yn cynnwys grŵp ffocws gyda dysgwyr 16–25 oed ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, ochr yn ochr â chyfweliadau wyneb yn wyneb mewn lleoliad addysg amgen, gan alluogi pobl ifanc nad ydynt yn dilyn llwybrau addysgol traddodiadol i rannu eu profiadau'n uniongyrchol.

Tynnodd y cyfranogwyr sylw at bwysigrwydd gwybodaeth glir a hygyrch am lwybrau ôl-16, canllawiau gyrfaoedd mwy personol a diduedd, a chefnogaeth well i ddysgwyr anabl a'r rhai ag anghenion ychwanegol. Roedd eu cyfraniadau yn sicrhau bod gwaith craffu'r Pwyllgor yn adlewyrchu profiadau ystod amrywiol o bobl ifanc a theuluoedd wrth lywio opsiynau addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

### Llwybrau Prentisiaeth: Grwpiau ffocws gyda phrentisiaid a'r rheini sydd wedi cwblhau prentisiaeth

Bu'r Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion yn cefnogi ymchwiliad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig i lwybrau prentisiaeth drwy raglen ymgysylltu a gynlluniwyd i gofnodi profiadau pobl sy'n ymgymryd â phrentisiaethau neu'n eu cwblhau ledled Cymru. Y nod oedd sicrhau bod yr ymchwiliad yn adlewyrchu safbwyntiau dysgwyr sy'n llywio llwybrau prentisiaeth mewn gwahanol sectorau a rhanbarthau.

Er mwyn galluogi prentisiaid i gymryd rhan a oedd yn cydbwyso ymrwymiadau gwaith a hyfforddiant, defnyddiodd y rhaglen ymgysylltu hyblyg ar-lein, gan gynnwys pum grŵp ffocws ac un cyfweliad unigol. Trefnwyd sesiynau yn dibynnu pryd oedd y cyfranogwyr ar gael, gan helpu i leihau rhwystrau i gyfranogiad i'r rhai sy'n cyfuno cyflogaeth ag astudio.

Cafodd cyfranogwyr eu recriwtio drwy sefydliadau partner ledled Cymru i sicrhau cynrychiolaeth o gymunedau gwledig a threfol ac amrywiaeth o sectorau prentisiaeth. Roedd y prentisiaid a oedd yn cymryd rhan yn astudio ar lefelau 2 i 5, gan gynnwys mewn meysydd fel peirianneg, iechyd a gofal cymdeithasol, rheoli prosiectau, plymio, therapi harddwch a weldio.

Roedd y gwaith ymgysylltu hefyd yn ceisio adlewyrchu materion mynediad a chynrychiolaeth o fewn llwybrau prentisiaeth. Roedd hyn yn cynnwys menywod sy'n gweithio mewn sectorau sy'n cael eu dominyddu'n draddodiadol gan ddynion, fel peirianneg a weldio, a dynion sy'n ymgymryd â phrentisiaethau mewn sectorau sy'n fwy cyffredin ymysg menywod, fel iechyd a gofal cymdeithasol.

Rhannodd y cyfranogwyr eu profiadau o gael mynediad at brentisiaethau, y wybodaeth sydd ar gael am wahanol lwybrau a'r heriau sy'n gysylltiedig â symud ymlaen rhwng lefelau. Fe wnaeth eu cyfraniadau helpu'r Pwyllgor i ddeall sut mae llwybrau prentisiaeth yn gweithredu ar gyfer dysgwyr amrywiol a lle gall rhwystrau i fynediad teg godi.

## Ymchwil a gwybodaeth ar gyfer Aelodau o'r Senedd

Mae prif ffrydio materion cydraddoldeb, cynhwysiant a hawliau dynol yn rhan sylfaenol o'r gwaith a wneir gan dîm Ymchwil y Senedd ar gyfer Aelodau o'r Senedd a'u staff, ac mae'n hygyrch iawn i'r cyhoedd drwy'r wefan ac ar y cyfryngau cymdeithasol.

Mae erthyglau ymchwil sy'n ymwneud â chydraddoldeb wedi cynnwys: **Pan fo cartrefi'n peryglu iechyd**, **mynediad at ofal llygaid; Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru)**, **pleidleisio mwy hygyrch yng Nghymru, adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2019**, **Iechyd Menywod yng Nghymru; Cymorth i aelwydydd â biliau ynni a thlodi tanwydd**, **diwygio Deddf Iechyd Meddwl 1983**, **amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus**, **y bwlch cyflogaeth i bobl anabl yng Nghymru**, **anghenion llety'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr**, **mynd i'r afael**

**â thlodi a gwella safonau byw** a chyfres sy'n edrych ar agweddau ar y **system cyfiawnder troseddol**.

Roedd erthygl yn nodi **pedair blynedd ers i Rwsia ymosod ar Wcráin** a chymorth i ffoaduriaid o Wcráin yng Nghymru yn parhau â'r ffocws ar broblemau sy'n wynebu ceiswyr lloches a ffoaduriaid.

### Cefnogi Aelodau o'r Senedd

O ran cefnogi'r Aelodau gyda'u gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, anfonodd y tîm ganllaw ar brif ffrydio cydraddoldeb gyda chwestiynau posibl gan gynnwys cyfeirio at hyfforddiant ar waith craffu sy'n sensitif i gydraddoldeb a ddatblygwyd gan Ymchwil y Senedd.

### Cefnogi pwyllgorau'r Senedd

Yn ogystal â chyhoeddi erthyglau ymchwil, mae ymchwiliadau amrywiol pwyllgorau'r Senedd wedi derbyn cyngor ac ymchwil sy'n cwmpasu ystod eang o faterion cydraddoldeb, gan gynnwys:

- Adroddiadau'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar Fil Iaith **https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=46256**Arwyddion Prydain (Cymru), **cydlyniant cymdeithasol** a **thlodi tanwydd**, ei ymchwiliad i **fynediad at fwyd iach, maethlon a fforddiadwy** a chraffu ôl-ddeddfwriaethol ar **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.
- Adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar **gymorth tai i bobl agored i niwed** ac ymchwiliad i **gyflwr anniogel tai cymdeithasol**.
- Adroddiadau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar **wella ysgolion a chyrhaeddiad dysgwyr** a **llwybrau i addysg a hyfforddiant ôl-16**.
- Adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ar **effaith gostyngiadau cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon**.
- Adroddiadau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar **atal afiechyd a gordewdra**; **mynediad at wasanaethau offthalmoleg** a **chefnogi pobl sydd â chyflyrau cronig** ac ymchwiliadau i **fynediad at gymorth i ofalwyr di-dâl** a **dyfodol meddygaeth deulu yng Nghymru**.

- Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar **lwybrau prentisiaeth**.
- Roedd sesiwn Craffu ar Waith y Prif Weinidog a oedd yn canolbwyntio ar **addysg a phobl ifanc** a chenedlaethau'r dyfodol wedi'i chrynhoi **yn y papur ymchwil hwn**.

### Amrywio'r dystiolaeth ymchwil sydd ar gael i'r Senedd

Mae Ymchwil y Senedd hefyd yn darparu'r **Rhaglen Cyfnewid Gwybodaeth** sy'n gweithio i ehangu, dyfnhau ac amrywio'r dystiolaeth ymchwil a'r arbenigedd sydd ar gael i'r Senedd drwy gryfhau cysylltiadau ag academyddion a phrifysgolion.

Mae hyn yn cynnwys darparu hyfforddiant, meithrin rhwydweithiau, darparu cyfleoedd i interniaid Doethuriaeth, comisiynu ymchwil, cynnal digwyddiadau a theithiau cyfnewid, a datblygu ffyrdd arloesol o annog ymgysylltiad academaidd â gwaith y Senedd.

Mae **Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil** wedi profi i fod yn ffordd effeithiol o ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd. Ers 2022, mae pwyllgorau wedi lansio naw maes o ddiddordeb ymchwil gyda bron i 400 o ymatebion, 67% gan bobl nad oeddent erioed wedi ymgysylltu â'r Senedd o'r blaen. Roedd 52% o'r ymatebwyr i'r meysydd o ddiddordeb ymchwil yn fenywod, roedd 45% o dan 45 oed, roedd 21% o gymunedau lleiafrifoedd ethnig, ac roedd gan 12% anabledd.

## Cefnogi Aelodau a'u staff – Dysgu ac Ymgysylltu â'r Aelodau

Mae ein timau Cymorth Busnes i'r Aelodau a Dysgu ac Ymgysylltu ag Aelodau yn darparu cymorth i Aelodau gyda rhedeg eu swyddfeydd a chyflogi staff cymorth. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae ein timau wedi adolygu nifer o bolisïau i adlewyrchu gofynion cyfreithiol newydd a'r arferion da diweddaraf ym maes cyflogaeth.

Mae'r tîm Dysgu ac Ymgysylltu ag Aelodau wedi darparu amrywiaeth o gyrsiau i Aelodau a staff cymorth gan gynnwys cyrsiau ar Drais ar sail Rhywedd; Rhagfarn Ddiarwybod; Gwrth-hiliaeth; a chreu mannau diogel yn seicolegol. Mae gan aelodau a staff cymorth fynediad at rwydweithiau cydraddoldeb yn y gweithle a thudalennau pwrpasol ar y fewnrwyd sy'n darparu hyfforddiant a chyngor ychwanegol ar Amrywiaeth a Chynhwysiant.

# Digwyddiadau'r Senedd

## Ymgyrch Ymgysylltu Senedd 26

Fel rhan o ymgyrch gyfathrebu ac ymgysylltu ehangach Senedd 26, ymwelodd ein tîm Digwyddiadau ac Ymgysylltu â gwyliau, digwyddiadau a chymunedau ledled Cymru i roi gwybod i gynulleidfaoedd am y newidiadau i'r Senedd yn y cyfnod cyn etholiad 2026.

Roedd rhaglen sioe haf 2025 yn cael ei hehangu i gynnwys mwy o bresenoldeb yn Eisteddfod yr Urdd, Sioe Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol, ochr yn ochr â digwyddiadau cymunedol eraill megis Sioe Awyr Cymru, Sioe Sir Benfro a Gŵyl Fwyd Caernarfon.

Fe wnaethon ni hefyd chwilio am gyfleoedd i ddarparu digwyddiadau dros dro llai i gyrraedd ein cynulleidfaoedd targed, er enghraifft mewn ardaloedd awdurdodau lleol sydd wedi ymddieithrio ac ardaloedd â chyfran uwch o grwpiau ethnig yn defnyddio mannau fel llyfrgelloedd cyhoeddus, canolfannau siopa, prifysgolion a mannau cymunedol eraill.

Yn ystod yr ymgyrch, aethom i Gynhadledd Anabledd Dysgu Gogledd Cymru yn Llandudno a gweithio mewn partneriaeth â Race Council Cymru i fynychu Hwb Amlddiwylliannol Abertawe.

Oherwydd yr ymgysylltiad cynyddol â chynulleidfaoedd amrywiol, fe wnaethom ddarparu ein deunydd darllen Senedd 26 mewn fformat hawdd ei ddarllen, mewn Braille, a chreu taflenni gwybodaeth mewn 9 iaith newydd (Arabeg, Bengaleg, Cantoneg, Farsi, Cwrdeg, Mandarin, Pwyleg, Somalieg ac Wrdw).






## Y Farchnad: Diwrnod Rhyngwladol ar gyfer Pobl Anabl

I ddathlu Diwrnod Rhyngwladol ar gyfer Pobl Anabl, cynhaliwyd digwyddiad y Farchnad gyda'r thema honno yn y Senedd ddydd Mercher 3 Rhagfyr lle croesawyd 12 sefydliad anabledd i ymuno â ni i amlygu ac arddangos eu gwaith. Roedd y digwyddiad hefyd yn cynnwys perfformiad arbennig gan Theatr Hijinx, '*Silent Glimpses, Loud Truths*'





## Gwasanaeth Nadolig

Roeddem wrth ein bodd yn croesawu Ysgol Bro Teyrnon, Casnewydd a grŵp Oedolion Ifanc ag anghenion ychwanegol Menter Caerdydd i berfformio yn ein gwasanaeth Nadolig blynyddol ym mis Rhagfyr. Yn ogystal â'u perfformiadau, cafodd y ddau grŵp fynd ar daith o amgylch yr adeilad a dysgu mwy am ein gwaith yn ystod eu hymweliad Nadoligaidd.



## Dydd Gŵyl Dewi

Roedd y Senedd yn fwrlwm o falchder a diwylliant ddydd Sadwrn 28 Chwefror a dydd Sul 1 Mawrth yn ystod dathliadau Dydd Gŵyl Dewi! Croesawyd dros 2,500 o ymwelwyr i'n hystad i ddathlu gyda ni a mwynhau talentau corau, grwpiau cerddorol a dawnswyr Cymreig.



Cymerodd ymwelwyr ran mewn llu o weithgareddau a gweithdai gwahanol drwy gydol y dydd – o addurno potiau planhigion, creu llwyau cariad unigryw, rhoi cynnig ar gelf tywod i sgiliau gwyddoniaeth.

Gwnaeth ymwelwyr y gorau o ddiwrnod braf prin ar y dydd Sadwrn drwy ymarfer eu sgiliau syrcas y tu allan i'r Pierhead ac ymuno â'n band Samba ar risiau'r Senedd ar y dydd Sul.

Roedd y teithiau o amgylch yr adeilad yn boblogaidd iawn gyda thros 110 o ymwelwyr yn cymryd rhan ac yn dysgu mwy am y gwaith sy'n digwydd yn y Senedd, a'r etholiad sydd ar ddod.

Roedd y rhaglen yn cynnwys perfformiadau byw gan Flamingo Chicks – dawns gynhwysol lliwgar a berfformiwyd gan blant, côr Good Vibrations Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru ar gyfer pobl â Parkinson a'u teuluoedd a gweithdy celf tywod gyda Theml Shree Swaminarayan, Caerdydd.











## Diwrnod Rhyngwladol y Menywod

Cynhaliwyd dau weithgaredd ymgysylltu i nodi Diwrnod Rhyngwladol y Menywod eleni – croesawu GirlsWhoRun i'r Senedd a chael presenoldeb yng ngêm bêl-droed Ryngwladol Menywod Cymru yn Llanelli fel rhan o ymgyrch Senedd 26.

Ddydd Sadwrn 7 Mawrth, fe wnaethon ni gydweithio â grŵp o fenywod ifanc 18–30 oed o GirlsWhoRun Caerdydd, a ymunodd â ni ym Mae Caerdydd i redeg 5k cyn ymweld â'r Senedd. I nifer o'r cyfranogwyr, dyma oedd eu hymweliad cyntaf â'r adeilad. Roedd yr ymweliad yn cynnwys taith dan arweiniad tîm Cyswllt Cyntaf, ac yna lluniaeth a sgwrs fer ar gynrychiolaeth menywod yn y Senedd.

Tynnodd y sesiwn sylw at gyfraniadau menywod amlwg yng ngwleidyddiaeth Cymru, gan gynnwys y Llywydd a'r Prif Weinidog. Dysgodd y cyfranogwyr hefyd am y Cawcws Menywod a thrafod arwyddocâd cyfranogiad dinesig, yn enwedig yng nghyd-destun yr etholiad sydd ar ddod.

Daeth y bore i ben gyda thrafodaeth grŵp ar ymgysylltiad cyfunol a'r rôl y gall unigolion ei chwarae wrth gyfrannu at ganlyniadau cadarnhaol i fenywod ledled Cymru.






## Arddangosfeydd

**Trwy Ein Llygaid: 160 Mlynedd o Weledigaeth a Gwydnwch** - Mae 'Trwy Ein Llygaid' yn arddangosfa ffotograffiaeth sy'n dathlu 160 mlynedd o Sight Life, Sefydliad y Deillion Caerdydd gynt. Cafodd holl ffotograffau'r arddangosfa eu tynnu gan bobl sydd â rhyw fath o amhariad ar eu golwg.




Delwedd - Ymdwtio ©Ian Burgess

**Curiad Calon Dwy Genedl - Arddangosfa gan Ganolfan Gymunedol Armenia**. Roedd yr arddangosfa hon yn ddathliad o'r nodweddion diwylliannol a hanesyddol cyffredin sy'n cysylltu Armenia a Chymru, gan gynnwys traddodiadau dwfn o adrodd straeon, canu corawl, mytholegau hynafol sy'n adlewyrchu gwytnwch, ysbrydolrwydd dwfn, a pharch mawr at barhad diwylliannol.

**Bywydau Ansefydlog: Rhyfel a Dadleoli yng Nghymru**. Mae'r arddangosfa hon yn cynnwys gwaith celf, arteffactau a storïau mudo y rhai a ddadleolwyd i Gymru yn ystod hanner cyntaf yr 20fed ganrif.

**Wanderlust**. Nod prosiect ffotograffiaeth Wanderlust yw cipio diwylliant cyfoethog a bywiog y gymuned Sipsiwn a Theithwyr trwy lens y camera. Cafodd ei greu gan ddisgyblion o Ysgol Gorllewin Mynwy, mewn partneriaeth â'r ffotograffwyr Jon Pountney a David Harrhy, a'r bardd Patrick Jones, roedd yr arddangosfa'n cynnwys delweddau a cherddi arddull dogfennol, i daflu goleuni ar naratifau amrywiol a chymhleth bywyd Sipsiwn-Teithwyr, gan herio stereoteipiau a hyrwyddo dealltwriaeth ac empathi.

**Gwneud Pethau'n Iawn**. Mae 'Gwneud Pethau'n Iawn' yn gydweithrediad teimladwy rhwng y Beirdd Dŵr ac Ysgol Gelf Caerfyrddin, sy'n cysylltu dros 1,000 o bobl ifanc creadigol o Sir Gaerfyrddin ac Alabama trwy gelf a cherddoriaeth. Mae'r prosiect wedi'i ysbrydoli gan **ffenestr wydr lliw John Petts**, a grëwyd mewn ymateb i fomio Eglwys Bedyddwyr 16th Street yn Birmingham, Alabama, ym 1963, a laddodd bedair merch ifanc ddu.




**Sikhiaid yng Nghymru - Archwilio Treftadaeth, Mudo, a Chreu Cymuned**. Mae'r arddangosfa hon yn dathlu hanes a chyfraniadau'r gymuned Sikhaidd yng Nghymru, gan ddarparu llwyfan i rannu straeon, treftadaeth a diwylliant trwy arteffactau, ffotograffau, ffilm a straeon personol.



Delwedd ©Harchran Singh

**Cymru: Cartref Oddi Cartref**. Wedi'i greu gan Vision Fountain, mae arddangosfa 'Cymru: Cartref Oddi Cartref' yn dwyn ynghyd straeon a gasglwyd o blith y cymunedau amrywiol sydd wedi dod i Gymru o bedwar ban byd. Roedd arddangosfa aml-gyfrwng yn cyflwyno casgliad o straeon trwy gyfuno dulliau traddodiadol â thechnolegau arloesol, yn cynnwys realiti rhithwir.




**Â'n gwreiddiau yn ein Dhaqan**. Roedd yr arddangosfa yn gydweithrediad rhwng **Prosiect Young Queens** Ymddiriedolaeth Menywod Hayaat – menter gelfyddydol ar gyfer menywod ifanc o Gymru a Somalia – **cylchgrawn Al Naaem**, cyhoeddiad sy'n canolbwyntio ar ffasiwn, ffotograffiaeth a chelf Du a Mwslimaidd.


Fe wnaeth y grŵp greu gwaith celf yn canolbwyntio ar 'Dhaqan', gair Somaliaidd sy'n golygu diwylliant. Roedd yr arddangosfa'n arddangos ffotograffau o'r prosiect a'r ffilm 'Rooted In Our Dhaqan', yn ogystal â phaneli testun deongliadol yn Somalieg.

I gysylltu â'r ffilm, fe wnaethon ni ddatblygu gweithgaredd i ymwelwyr, gan ofyn iddyn nhw: 'Pe gallech chi wneud ffilm yn dathlu eich diwylliant neu'ch cymuned, beth hoffech chi ei rannu â phobl y dyfodol?'. Roedd myfyrdodau'r ymwelwyr yn cael eu dangos yn y Senedd o 22 Gorffennaf i 1 Medi.

Cynhaliodd Al Naaem weithdy barddoniaeth ac ysgrifennu creadigol hefyd a gynlluniwyd i rymuso pobl ifanc a datblygu eu creadigrwydd.

Archwiliodd y cyfranogwyr eu treftadaeth a'u hunaniaethau drwy ysgrifennu dan arweiniad ac adrodd straeon. Roedd y gweithdy yn dathlu amrywiaeth ddiwylliannol, ac yn meithrin y genhedlaeth nesaf o artistiaid ac arweinwyr.

> *Dywedodd llawer o bobl wrthyf fod yr arddangosfa hon wedi gwneud i'r Senedd deimlo'n llawer mwy hygyrch, croesawgar, a pherthnasol iddyn nhw. Roedden nhw'n teimlo ymdeimlad cryfach o gysylltiad â'r gofod, ac i rai, dyma'r tro cyntaf iddyn nhw gamu i mewn erioed. Mae hynny ynddo'i hun yn bwerus, mae'n dangos sut y gall mentrau fel hyn bontio'r bwlch rhwng sefydliadau a chymunedau.*
>
> *Fel rhywun nad yw bob amser yn gweld unigolion fel fi yn cael eu cynrychioli yn y mannau hyn, roedd yn golygu cymaint teimlo bod y Senedd yn agor ei drysau i leisiau a safbwyntiau amrywiol. Creodd yr arddangosfa ymdeimlad o berthyn a chynrychiolaeth, gan wneud i'r gofod deimlo nid yn unig yn ddemocrataidd mewn egwyddor ond hefyd yn gynhwysol yn ymarferol.*
>
> *Rydw i hefyd yn credu bod y math hwn o weithgaredd yn annog mwy o ymglymiad a chyfranogiad cymunedol. Mae'n dangos ymrwymiad y Senedd i sicrhau bod pobl o bob cefndir yn teimlo bod ganddyn nhw le yma, bod eu straeon yn bwysig, a bod modd clywed eu lleisiau. I mi, dyna wir gwaddol y profiad hwn, ac rwy'n gobeithio gweld mwy o gyfleoedd fel hyn yn y dyfodol.*





## Digwyddiadau a noddir gan Aelodau

Fel senedd gynhwysol sy'n hygyrch i bobl Cymru, mae'r mannau lle y cynhelir digwyddiadau'r Senedd ar gael i unigolion a sefydliadau er mwyn codi ymwybyddiaeth o fater, rhoi sylw i'w sefydliad neu ddathlu achlysur arbennig. Mae angen i drefnwyr digwyddiadau gael Aelod o'r Senedd i noddi eu digwyddiad. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, rydym wedi cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau a noddir gan Aelodau gan groesawu miloedd o bobl i'n hystad. Ymysg y digwyddiadau roedd:

| | |
|---|---|
| Lansio Menter Athrawon Lleiafrifoedd Ethnig Cymru | Pythefnos Gofal Maeth - Pwysigrwydd Perthnasoedd |
| Wythnos Codi Ymwybyddiaeth o MS | Diwrnod Diwylliant a Threftadaeth Gwlad Pwyl |
| Digwyddiad Dathlu Eid | Balchder Anabledd |
| Cofio Srebrenica 30 | Diwali |
| Menywod yng Nghymru mewn Arweinyddiaeth | TUC - Mis Hanes Pobl Dduon |
| Digwyddiadau Diwrnod y Rhuban Gwyn | Derbyniad Diwrnod AIDS y Byd |
| Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl | Goleuo Menorah Chanukah |
| Pencampwyr dros Blant: Maniffesto ar gyfer babanod, plant a phobl ifanc cyn etholiad y Senedd 2026 | Lansio Strategaeth Chwaraeon Menywod Cymru |
| Cymuned Menopos De Cymru | Digwyddiad Men's Shed |
| Digwyddiadau Ramadan ac Iftar | Diwrnod Gweithredu ar gyfer Gofalwyr Ifanc |
| Dathlu Menywod y Senedd | Newroz – Calan y Cwrdiaid |


CARDIFF CITY
BOSS & BREW




## Ymgysylltu â’r gymuned: mynd allan i'r gymuned

Mae'r gwaith Ymgysylltu â'r Gymuned a wnaed yn y cyfnod hwn yn dangos cynnydd cryf tuag at fwy o gynhwysiant a hygyrchedd.

Mae ein tîm wedi parhau i gryfhau perthnasoedd ag ystod amrywiol o gymunedau a chefnogi mwy o gynhwysiant ar draws gwaith cyhoeddus y Senedd. Mae gweithgareddau ymgysylltu wedi canolbwyntio ar gyrraedd grwpiau sy'n profi rhwystrau ieithyddol, diwylliannol neu gymdeithasol i gyfranogiad, gan sicrhau bod mwy o bobl yn gallu deall a chyfrannu at y broses ddemocrataidd yng Nghymru.

Un flaenoriaeth allweddol fu cefnogi unigolion nad Saesneg na Chymraeg yw eu hiaith gyntaf, ochr yn ochr â gwaith wedi'i dargedu gyda sefydliadau cymunedol lleol a grwpiau sy'n cynrychioli cymunedau sydd wedi'u hymylu.

Isod mae rhai enghreifftiau o'n gwaith ymgysylltu a'r adborth a gawsom.

- **Prosiect Grymuso Llawr Gwlad (SRCDC)** – cefnogi pobl ifanc ac aelodau’r gymuned o gefndiroedd amrywiol i ddeall strwythurau democrataidd yn well a mynegi eu barn.

*"Rydyn ni'n hynod ddiolchgar ichi am drefnu gweithdy mor addysgiadol a defnyddiol i ni. Gan nad oes bron yr un o'n cyfranogwyr yn siaradwyr brodorol, nododd nifer o bobl pa mor glir, syml a hygyrch oedd iaith eich cyflwyniad. Fe wnaeth hyn wahaniaeth gwirioneddol, ac rydyn ni'n ei werthfawrogi'n fawr."*

- **Let's Interpret** – prosiect cymunedol o gyfieithwyr benywaidd wedi'i leoli yng Nghanolfan Datblygu Cymunedol De Glan-yr-Afon sy'n hyfforddi menywod dwyieithog ac amlieithog i ddod yn gyfieithwyr gwasanaeth cyhoeddus proffesiynol ac yn cefnogi mynediad cyfartal at wasanaethau ar gyfer cymunedau mudol a chymunedau sy'n ceisio lloches.

  *"Roedd mor ddefnyddiol i bawb, diolch yn fawr iawn, roedd pawb yn teimlo yn rhan ohono ac yn gwerthfawrogi'r croeso. Maen nhw i gyd yn sôn am fod eisiau ymweld â'r Senedd."*

- **Canolfan Gymunedol Sblot** – meithrin cysylltiadau â thrigolion lleol a chefnogi cyfranogiad gan unigolion nad ydynt yn cael eu clywed yn aml mewn sianeli ymgysylltu ffurfiol.

  *"Diolch yn fawr iawn am y sesiwn yr wythnos diwethaf. Roedden ni i gyd yn teimlo ei bod yn ddefnyddiol iawn (rydw i'n dal i ofyn i bobl ddyfalu faint yw bil dŵr misol y Senedd :))."*

- **Hong Kongers Caerdydd** – ymgysylltu â theuluoedd ac unigolion sydd newydd ymgartrefu yn Hong Kong i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u hawliau a rôl y Senedd.

  *"Roedd yn gyflwyniad neis iawn; roedd y gynulleidfa'n frwdfrydig iawn, ac fe ddysgon nhw a deall mwy am yr etholiadau sydd ar ddod. Ry'ch chi'n ardderchog ac mae gennych chi reolaeth dda iawn dros bopeth. Diolch yn fawr."*

- **Pafiliwn Butetown** – cefnogi ymgysylltiad â chymunedau aml-ethnig yn Butetown, ardal sydd ag amrywiaeth gyfoethog a rhwydweithiau llawr gwlad cryf.

  *"Diolch unwaith eto, roedd pawb yn teimlo eu bod wedi dysgu cymaint am y Senedd a'r Etholiad."*

- **Pafiliwn Grange** – parhau i gydweithio â grwpiau cymunedol sydd wedi'u lleoli yn y Pafiliwn, gan gynnwys Grŵp y Cerddwyr a mentrau lleol eraill.

  "*Diolch yn fawr iawn am heddiw. Mwynhaodd pawb y sgwrs a theimlo eu bod wedi dysgu rhywbeth. Roedd eich arddull cyflwyno yn addysgiadol ac yn ddiddorol gan wneud pwnc anodd a photensial, meiddiaf ddweud, sych yn ddiddorol ac yn hawdd ei ddeall. Ry'n ni i gyd yn edrych ymlaen at ddychwelyd ym mis Ebrill.*"

- **Dysgu Oedolion Pobl yn Gyntaf Caerdydd**, cefnogi oedolion ag anableddau dysgu i archwilio sut y gallant rannu eu profiadau a dylanwadu ar bolisi.

  "*Diolch yn fawr iawn am ddod i siarad â ni a gwneud y sesiwn yn gynhwysol ac yn hygyrch, rwy'n edrych ymlaen at ein hymweliad â'r Cyfarfod Llawn.*"



## Datblygu adnoddau amlieithog

I gefnogi'r gwaith ymgysylltu cynyddol hwn, mae'r tîm wedi bwrw ymlaen i ddatblygu adnoddau sydd wedi'u cyfieithu i ddeg iaith ychwanegol. Bydd y deunyddiau hyn yn helpu i sicrhau bod gwybodaeth am Etholiad y Senedd yn hygyrch i ystod ehangach o bobl, yn enwedig y rhai y mae Saesneg/Cymraeg ysgrifenedig neu lafar yn creu rhwystrau sylweddol iddynt.

Bydd yr adnoddau amlieithog hyn hefyd yn helpu partneriaid cymunedol, gan eu galluogi i rannu gwybodaeth gywir a dibynadwy gyda'r grwpiau y maent yn gweithio gyda nhw.

## Ymgysylltu â'r gymuned: gwahodd pobl i mewn

### Y Farchnad

Mae’r Farchnad yn dod â phobl o bob cwr o Gymru i'r Senedd bob mis mewn digwyddiad arddull marchnad. Mae'n rhoi cyfle i sefydliadau gael stondin yng nghanol bwrlwm y Senedd; i rwydweithio, cwrdd ag Aelodau o'r Senedd a gadael i'w llais gael ei glywed ac mae wedi bod yn hynod boblogaidd gyda sefydliadau rhanddeiliaid.

Y Farchnad
• Senedd Cymru | Welsh Parliament •


### Gweithgareddau crefftau – Senedd sy’n Ystyriol o Deuluoedd

Eleni fe wnaethon ni barhau â'n gwaith i fod yn senedd sy'n gyfeillgar i deuluoedd, gan groesawu pobl i'r Senedd ar gyfer Llwybr Nadoligaidd Fflam ac ar gyfer crefftau gaeaf.





Mae Llyfryn Gweithgareddau Antur y Pierhead Fflam yn annog ymwelwyr ifanc i archwilio'r Pierhead



## Y gwasanaeth addysg a Senedd Ieuenctid Cymru

### Ymgysylltu â phobl ifanc ynghylch Etholiad y Senedd

Mae codi ymwybyddiaeth o Etholiad y Senedd sydd ar ddod, a gwella dealltwriaeth o'r newidiadau i'r system o ethol Aelodau wedi bod yn faes ffocws allweddol, yn enwedig gyda phobl iau a fydd yn pleidleisio am y tro cyntaf.

Mae adnoddau wedi'u datblygu mewn partneriaeth â'r Comisiwn Etholiadol, a swyddfa'r Comisiynydd Plant, i alluogi addysgwyr i ymgysylltu â phobl ifanc mewn ysgolion, colegau, a lleoliadau grwpiau ieuenctid a'u hysbysu, gan gynnwys adnoddau a ddatblygwyd ar gyfer pobl ifanc ag anableddau ac anghenion dysgu ychwanegol. Mae sesiynau hyfforddi penodol wedi cael eu cyflwyno mewn partneriaeth ag Anabledd Dysgu Cymru i gefnogi addysgwyr ar ddefnyddio'r adnoddau hyn.

Mae nifer o sesiynau wedi cael eu cyflwyno gan swyddogion mewn ysgolion, colegau a grwpiau ieuenctid ledled Cymru, gyda grwpiau o gefndiroedd amrywiol, gan gynnwys Uned Atgyfeirio Disgyblion Aberhonddu, cymuned Cymorth Ffoaduriaid Aberaid, Fforwm Anableddau Ceredigion, Ysgol Plas Brondyffryn, a STAND Gogledd Cymru.



### Senedd Ieuenctid Cymru - adroddiad ar ymddygiad mewn ysgolion

Penderfynodd pwyllgor Trosedd a Diogelwch Senedd Ieuenctid Cymru ganolbwyntio ar ymddygiad mewn ysgolion fel pwnc eu gwaith yn 2025. Roeddent yn canolbwyntio ar y pryder cynyddol ynghylch trosedd a diogelwch mewn ysgolion a cholegau yng Nghymru, gydag adroddiadau newyddion yn awgrymu bod ymddygiad disgyblion yn gwaethygu, gan gynnwys enghreifftiau difrifol o ymddygiad ymosodol a threisgar ac ymddygiad aflonyddgar fel peidio

â dilyn rheolau, a lefelau presenoldeb is. Cyhoeddodd y pwyllgor eu hadroddiad o'r enw Yn Ddiogel, a gafodd ei gynnwys a'i glywed ym mis Tachwedd 2025. **https://seneddieuenctid.senedd.cymru/pwyllgorau/trosedd-a-diogelwch-sic3/adroddiad-trosedd-a-diogelwch/**

Cymerodd bron i 2,000 o bobl ifanc ran yn yr ymgynghoriad drwy gwblhau'r arolwg neu drwy grwpiau ffocws. Un o ganfyddiadau allweddol y gwaith hwn oedd bod pobl ifanc o grwpiau sydd wedi'u hymylu, fel y rhai ag anableddau, o gefndiroedd ethnig gwahanol, o ardaloedd tlotach a phobl ifanc LHDTC+ yn teimlo'n llai diogel yn eu man dysgu, ac yn amlach yn darged cam-drin a bwlio.

Er mwyn deall profiadau'r bobl ifanc hyn, cynhaliwyd grwpiau ffocws gyda phobl ifanc mewn darpariaeth addysgol amgen, pobl ifanc LHDTC+, rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, a phobl ifanc sy'n profi tlodi i lywio'r gwaith hwn.

Mae un o brif argymhellion yr adroddiad yn galw ar Lywodraeth Cymru i wella profiadau pobl ifanc o grwpiau sydd wedi'u hymylu lle maen nhw'n derbyn eu haddysg. Roeddent hefyd yn galw ar Lywodraeth Cymru i adeiladu ar y gwaith hwn ac ymgysylltu ymhellach â'r grwpiau a amlygwyd yn yr adroddiad i ddarganfod datrysiadau a fydd yn gwella diogelwch a phrofiadau addysgol y bobl ifanc hyn.



## Sefydliadau partner y Senedd Ieuenctid

Mae’r Senedd Ieuenctid yn gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau partner i sicrhau cynrychiolaeth grwpiau amrywiol o bobl ifanc, gan gynnwys Race Council Cymru, Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru (EYST), Tros Gynnal Plant, Talking Hands, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, Anabledd Dysgu Cymru, Digon (o Ysgol Plasmawr sy’n hyrwyddo cydraddoldeb i fyfyrwyr LHDT ac yn brwydro yn erbyn homoffobia yn eu hysgol a’r gymuned ehangach) GirlGuiding Cymru, Clwb Ffermwyr Ifanc Cymru, yr Urdd, Voices from Care, NYAS, GISDA, Gweithredu dros Blant, Ysgol Headlands, Gwasanaeth Ieuenctid Conwy, Cyngor Abertawe, Tŷ Hafan a Thŷ Gobaith, Ymddiriedolaeth Elusennol Stephens a George, Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid Merthyr.

Mae pob sefydliad yn ethol person ifanc o fewn eu haelodaeth i fod yn Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru, gan sicrhau bod safbwyntiau unigryw pobl ifanc o ystod o gefndiroedd gwahanol yn cael eu clywed yn holl waith Seneddau Ieuenctid Cymru.

Mae'r Senedd Ieuenctid wedi ymrwymo i weithio'n gynhwysol a chefnogi ei Aelodau i gael mynediad at wybodaeth ac ymgysylltu â'n gwaith yn effeithiol. O ganlyniad, mae gan bob un o'n cyfarfodydd yn ystod trydydd Tymor Ieuenctid Cymru'r gallu i drosi testun lleferydd, cyfieithu Twrceg a chyfieithu dogfennau allweddol ac ymgynghoriadau i Hawdd i'w Ddarllen. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gydag Anabledd Dysgu Cymru i sicrhau bod y ffordd yr ydym yn cyfathrebu â'r Aelodau yn addas ar gyfer amrywiaeth o anghenion. Yn ogystal, rydym bob amser yn cynnig yr opsiwn i gyfieithu ein hymgynghoriadau i wahanol ieithoedd.

# Senedd Fyd-eang - ymgysylltu rhyngwladol

## Cynhadledd Rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir (BIMR) Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad (CPA)

Cynhaliodd y Senedd **gynhadledd** ryngwladol flaenllaw Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad (CPA) rhwng 17-19 Mehefin, gan ganolbwyntio ar "Mynd i'r Afael ag Anghenion Senedd Fodern". Croesawyd dros 50 o gynrychiolwyr o 15 deddfwrfa i Gymru ac roedd y sesiynau'n cynnwys pwysigrwydd lleisiau LHDTC+ mewn senedd, ein Senedd Ieuenctid Cymru, cyfranogiad pobl anabl, **iechyd meddwl a llesiant seneddwyr,** a lansio Rhwydwaith LHDTC+ BIMR.

Mae'r rhwydwaith, er ei fod yn ei ddyddiau cynnar, wedi bod yn weithgar iawn. Mae'r Pwyllgor Llywio, gydag Adam Price AS yn Gadeirydd dros dro a Hannah Blythyn yn Aelod, wedi cyfarfod yn aml ac, ym mis Tachwedd 2025 cynhaliwyd Fforwm wyneb yn wyneb cyntaf yn San Steffan. Archwiliodd y rhaglen y themâu allweddol canlynol: "*Gwelededd pobl LHDT+ mewn gwleidyddiaeth ar draws Rhanbarth BIM*" a "*Statws cydraddoldeb LHDT+ ar draws y Gymanwlad ehangach.*"

Gellir darllen erthygl gan Adam Price AS, yn trafod y Fforwm **yma.**








Llun gan: CPA Cymru

## Cynhadledd Ranbarthol Seneddwyr Benywaidd y Gymanwlad (CWP)

Thema'r gynhadledd oedd "*Senedd i Bawb: Pwysigrwydd Menywod mewn Gwleidyddiaeth*" **Adroddiad**.

Gweithdy CWP, a'i thema oedd "Seneddwyr fel Gyrwyr Grymuso Economaidd Menywod" **Adroddiad**.

Thema'r Gynhadledd oedd "*Pŵer a Heddwch: Diogelu Ein Hiechyd Meddwl mewn Bywyd Cyhoeddus*" Adroddiad Swyddogol wrthi'n cael ei lunio **Linc i Erthygl Ysgrifenyddiaeth y CPA**.

## Seneddwyr y Gymanwlad ag Anableddau (CPwD)

Ym mis Chwefror 2026 cynrychiolodd Mark Isherwood AS y Senedd yn y **Fforwm CPwD BIMR cyntaf**, a gynhelir gan Senedd yr Alban yng Nghaeredin. Ceir rhagor o fanylion am y Fforwm **yma**.

## Ymweliadau nodedig

Cynhaliodd y Llywydd ymweliadau swyddogol â'r Senedd gan y Llefaryddion Cymanwlad canlynol, yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

- Llefarydd Senedd Awstralia (ffederal) yr Arlywydd Sue Lines
- Llefarydd Cyngor Deddfwriaethol De Cymru Newydd, Llywydd Ben Franklin
- Llefarydd Senedd Queensland, yr Anrhydeddus Pat Weir AS




SAMBA DOC
MEN OF GWENT

Senedd Cymru
Welsh Parliament

www.senedd.cymru | www.senedd.wales